Mae'r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â'r ESG

# Adolygiad Gwella Ansawdd

## Prifysgol Caerdydd

**Adroddiad yr Adolygiad**

Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg

# Cynnwys


**Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd .... 1**

Yr adolygiad hwn .... 1

**Yr adroddiad hwn .... 1**

**1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad .... 2**

Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol .... 2

Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau .... 2

Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol .... 3

Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad .... 3

Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr hunan-ddadansoddiad .... 4

Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol .... 5

**2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad .... 6**

Y canmoliaethau .... 6

Yr argymhellion .... 6

Y meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus .... 6

**3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant .... 7**

Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr .... 8

Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol .... 9

Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol .... 10

**4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr .... 12**

Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr .... 12

Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr .... 13

Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr .... 13

Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu .... 14

Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu ............................ 15

Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr ................... 16

Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt ........................................................................ 16

Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu ........................................................ 18

Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr .................................. 18

**5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd .......................... 20**

Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth ........................................................ 20

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol ........................................................ 21

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol ........................................................ 22

Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi ........................................................ 23

Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd ........................................................ 25

**6. Darpariaeth gydweithredol ........................................................ 26**

Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid ........................................................ 26

Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ........................................................ 26

Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol ........................................................ 27

Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr ........................................................ 27

# Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad yr Adolygiad GA a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Caerdydd ('y Brifysgol'). Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu rhwng 2 a 5 Mawrth 2026 a chafodd ei weithredu gan dîm o bedwar adolygwr:

- Dr Matthew Leeke
- Mr Mark Cooper
- Ms Sarosh Azhar
- Ms Ariane O'Rourke (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr. Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (yr Hunan-ddadansoddiad), gwybodaeth gyd-destunol am natur ei ddarpariaeth a phoblogaeth ei fyfyrwyr, ac ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yn yr adolygiad hwn, mae tîm yr Adolygiad GA yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r beirniadaethau gael eu mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA.

Hefyd, mae'r Adolygiad GA yn rhoi datganiad am y dull strategol y mae'r darparwr yn ei ddefnyddio i wella profiad dysgu ei fyfyrwyr.

# Yr adroddiad hwn

Gallwch weld y beirniadaethau a roddwyd yn yr adolygiad hwn ar dudalen 5, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, argymhellion i'w gweithredu a meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus sydd wedi eu nodi gan y tîm adolygu. Yn dilyn hyn mae canfyddiadau manwl yr adolygiad.

Mae'r adroddiadau hyn yn darparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws y darparwyr yng Nghymru.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad GA: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.

# 1. Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

## Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd ('y Brifysgol') yn 1883 ac mae wedi bodoli ar ei ffurf bresennol ers 2005. Mae'n brifysgol gynhwysfawr ac ymchwil-ddwys sy'n aelod o'r Grŵp Russell. Mae strategaeth y Brifysgol, 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd', yn nodi ei chyfeiriad hyd 2035 a'i chenhadaeth i "greu a rhannu gwybodaeth newydd ar y cyd, er mwyn cael byd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol".

2 Mae Cyngor y Brifysgol yn gyfrifol am ei chyfeiriad strategol ac am oruchwylio'r Brifysgol, tra bo Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn gyfrifol am reoli'r sefydliad a gweithredu'r strategaeth hon. Daeth strwythur llywodraethu corfforaethol newydd i rym o 2025-26, a chymeradwyodd y Senedd, sef yr awdurdod academaidd pennaf, newidiadau i'r trefniadau llywodraethu academaidd ym mis Tachwedd 2025 er mwyn gwella ei oruchwyliaeth ar faterion yn ymwneud ag ymchwil ac alinio'r is-bwyllgorau'n well o dan gylch gwaith y Senedd.

3 Mae'r Brifysgol wedi ei threfnu'n dri choleg (Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol; Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd; Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg) sy'n cynnwys cyfanswm o 24 Ysgol ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ostwng y nifer i 16 o 2026-27 ymlaen. Arweinir pob coleg gan Rag Is-Ganghellor, sef Pennaeth y Coleg, sydd hefyd yn aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Mae'r Brifysgol wrthi'n adolygu strwythurau ei gwasanaethau proffesiynol i sicrhau eu bod yn cyfateb â'r fframwaith academaidd newydd, gyda'r bwriad o'i weithredu mewn camau o fis Gorffennaf 2026 ymlaen. Ar sail gyfwerth ag amser llawn, mae'n cyflogi 5,765 o aelodau staff ar hyn o bryd, ac mae 2,655 o'r rhain yn staff academaidd.

4 Ar hyn o bryd, mae gan y Brifysgol bedair partneriaeth ar gyfer darpariaeth a addysgir. Mae un o'i phartneriaethau yn Tsieina yn arwain at ddyfarniad dwbl ac yn weithredol ar hyn o bryd, tra bo'r tair partneriaeth arall yn cynnwys trefniadau masnachfraint gyda thri phartner academaidd yng Nghymru. Mae dwy o'r partneriaethau masnachfraint wrthi'n cael eu 'haddysgu allan',
ac mae'r bartneriaeth arall wrthi'n cael ei hadolygu.

## Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

5 Ar sail gyfwerth ag amser llawn, roedd 28,722 o fyfyrwyr cofrestredig yn 2025-26, sef 22,998 o fyfyrwyr israddedig (80% o'r holl fyfyrwyr), 4,216 o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir (15% o'r holl fyfyrwyr), a 1,508 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (5% o'r holl fyfyrwyr).
Mae cyfansoddiad poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol wedi newid ers 2018-19, gan adlewyrchu cynnydd o 17% yn y nifer o fyfyrwyr israddedig a gostyngiadau yn y nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sydd wedi eu cofrestru (20% a 13%, yn y drefn honno). Mae 85% o'r holl fyfyrwyr cofrestredig yn dod o'r DU, ac mae'r 15% sy'n weddill yn cynrychioli myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r rhan fwyaf (94%) o'r myfyrwyr israddedig yn astudio'n llawn amser.

6 Rhagwelir y bydd darpariaeth addysg drawswladol y Brifysgol yn cynyddu drwy ei champws cangen yn Kazakhstan a thrwy ei phartneriaethau yn Singapore a Tsieina. Cafodd

carfan gyntaf o 316 o fyfyrwyr ei chofrestru ar gampws Kazakhstan ym mlwyddyn academaidd 2025-26.

7 Mae'r cyfraddau cadwraeth a chynnydd wedi gwella ers y dirywiadau oedd yn ymwneud â'r pandemig COVID-19, er bod yr ymadawiadau'n digwydd amlaf o hyd yn ystod y cyfnod trosglwyddo o flwyddyn 1 i flwyddyn 2. Mae safle'r Brifysgol am ragolygon gyrfaol ei graddedigion wedi cryfhau, ac mae'n un o'r 12 uchaf yn y DU yn ôl sgorau cyflogadwyedd 2026 a gyhoeddwyd gan Times Higher Education. Sicrhawyd rhywfaint o ostyngiad yn y bylchau dyfarnu hefyd, a hynny drwy ymyriadau addysg gynhwysol sydd wedi eu llunio i feithrin ymdeimlad o berthyn, grymuso myfyrwyr i gyflawni eu potensial drwy ddysgu ac addysgu cynhwysol, a datblygu meddylfryd cynhwysol drwy adnabod rhwystrau i ddysgu. Mae'r Brifysgol wrthi'n rhoi rhaglen Llwyddiant Myfyrwyr ar waith i gefnogi myfyrwyr sydd dan risg a lleihau anghysonderau rhwng deilliannau dysgu'r myfyrwyr.

8 Disgwylir y bydd yr Athrofa er Dysgu Hyblyg Gydol Oes yn dod yn weithredol yn hwyr yng ngwanwyn 2026 ac yn ehangu darpariaeth ran amser, fodiwlaidd a hyblyg. Yn ogystal, disgwylir y bydd Ysgol Graddedigion newydd, sydd i gael ei lansio ym mis Medi 2026, yn gwella'r nifer a gofrestrir i wneud ymchwil ôl-raddedig.

## Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

9 Mae Prifysgol Caerdydd yn alinio ei strategaeth sefydliadol 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd' â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan integreiddio saith nod llesiant a phum ffordd o weithio sydd wedi eu nodi yn y Ddeddf i mewn i'w gwaith cynllunio gweithredol. Mae'r amcanion strategol wedi eu mapio'n agos â blaenoriaethau Medr, sef y corff rheoleiddio, gyda phwyslais arbennig ar ehangu cyfranogaeth, mynediad teg, a galluogi i fyfyrwyr o bob cefndir gyflawni eu potensial.

10 Mae'r ymrwymiadau sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Mynediad a Ffioedd blynyddol y Brifysgol yn canolbwyntio ar ymgysylltu â myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'u cefnogi i drosglwyddo'n llwyddiannus i mewn i addysg uwch. Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu fel sefydliad angori ar gyfer Parth Buddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gyfrannu at adnewyddu'r economi yn y rhanbarth a chefnogi oddeutu un ymhob 135 o swyddi yng Nghymru.

11 Mae cyfranogaeth ddinesig a chynaliadwyedd yn cael eu hybu drwy fentrau megis rhaglen 'Liveable Futures' sy'n treialu dulliau arloesol o gydweithio rhyngddisgyblaethol ac yn cyfateb â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru er mwyn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y gwasanaeth Dysgu Hyblyg Gydol Oes yn cefnogi blaenoriaethau diwydiannol strategol y DU a'i gwledydd drwy ehangu darpariaeth ran amser, fodiwlaidd a hyblyg er mwyn datblygu gweithlu sydd â lefel uchel o sgiliau.

12 Mae'r Brifysgol yn hybu'r Gymraeg a phrofiadau myfyrwyr dwyieithog drwy'r fframwaith Cynllun Cynefin, sy'n tanategu ymdrechion i gynyddu darpariaeth gyfrwng Cymraeg a chefnogi datblygiad graddedigion dwyieithog. Gyda'i gilydd, mae'r strategaethau hyn yn dangos bod y Brifysgol yn parhau i gyfateb â'r blaenoriaethau cenedlaethol - o addysg, datblygiad sgiliau, cyfraniad at yr economi yn y rhanbarth, i les y gymdeithas a'r amgylchedd.

## Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

13 Arweiniwyd y gwaith paratoi ar gyfer yr Adolygiad GA gan grŵp llywio dan gadeiryddiaeth y Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr, ac roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys staff

y Brifysgol, Llywydd Undeb y Myfyrwyr a'i Bennaeth Llais Myfyrwyr a Chyngor. Dewisodd Undeb y Myfyrwyr gyfrannu cyflwyniad ategol ar wahân, ac roedd staff y Brifysgol yn cefnogi ei ddatblygiad gyda chyngor a mewnbwn.

14 Roedd yr Hunan-ddadansoddiad yn defnyddio mewnbwn gan staff o bob rhan o'r Brifysgol ac yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi derbyn ystyriaeth gan bwyllgorau'r Brifysgol. Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth sefydliadol 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd', cynhaliwyd ymarfer ymgynghori 'Y Sgwrs Fawr' oedd yn cynnwys cydweithio â'r staff a'r myfyrwyr.

15 Roedd yr adborth yng nghyflwyniad y myfyrwyr yn tynnu sylw at yr angen am well ymgysylltiad ynghylch newidiadau strwythurol mawr, ac mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr angen ac yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Roedd y gwaith paratoi hwn yn sicrhau bod safbwyntiau'r staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd yn cyfrannu at y broses adolygu, gan gefnogi gwerthusiad cynhwysfawr o drefniadau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd.

## Crynodeb o natur a rhesymeg y blaenoriaethau gwelliant a nodwyd ar gyfer yr adolygiad ac yn yr hunan-ddadansoddiad

16 Tynnwyd blaenoriaethau gwelliant y Brifysgol ar gyfer yr adolygiad hwn o'i dull strategol o wella addysg, data am berfformiad y Brifysgol, a'i phartneriaeth barhaus gyda'i myfyrwyr. Hysbyswyd y blaenoriaethau hyn gan bortffolio Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (APM) 2021-24 y Brifysgol, y datblygiadau strategol dilynol o dan ei strategaeth 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd', yn ogystal â dadansoddiad o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), data am gynnydd y myfyrwyr a'r bylchau dyfarnu rhyngddynt, a chanlyniadau prosesau monitro rheoleiddiol.

17 Mae'r pedair blaenoriaeth gwelliant a ddewiswyd fel astudiaethau achos ar gyfer yr adolygiad yn adlewyrchu meysydd o fuddsoddiad strategol a heriau sefydliadol, ac mae'r blaenoriaethau ar wahanol gamau o'u cyflawniad, fel sydd wedi ei nodi isod.

- **Blaenoriaeth 1: Datblygu'r staff academaidd**
  Roedd menter strategol sefydliadol yn canolbwyntio ar gryfhau'r gallu a'r diwylliant addysgu drwy ecosystem ddatblygu academaidd gyfunol a rhaglenni cymrodoriaeth sydd wedi eu hachredu gan Advance HE. Mae'r flaenoriaeth hon yn cynrychioli gwelliant sydd wrthi'n cael ei weithredu a'i werthuso.

- **Blaenoriaeth 2: Yr amgylchedd dysgu digidol**
  Nod y rhaglen drawsnewid hon i'r Brifysgol gyfan yw sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ddigidol yn fwy cyson ac effeithiol, ac yn fwy hygyrch i'r myfyrwyr a'r staff. Mae'r gwelliant hwn wrthi'n cael ei weithredu, ac mae wedi ei alinio â chynlluniau ehangach i fuddsoddi yn yr amgylchedd dysgu a'r seilwaith.

- **Blaenoriaeth 3: Datblygu'r cwricwla**
  Nod y rhaglen hon yw gwella prosesau llunio rhaglenni a datblygu cwricwla cydlynol a chynhwysol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, mewn ymateb i dystiolaeth oedd yn dangos arferion anghyson a dirywiad yn sgorau'r ACF ar gyfer 'cyfleoedd dysgu'. Mae'r gwelliant hwn yn gynnar yn ei weithrediad ac yn mynd i'r afael â heriau strwythurol a gweithdrefnol a wynebwyd.

- **Blaenoriaeth 4: Meddwl o'r newydd am ddulliau asesu**
  Nod y fenter hon yw gwella arferion asesu ac ymdrin ag adborth mewn ymateb i anfodlonrwydd y myfyrwyr â dulliau sefydliadol anghyson. Mae'r gwelliant hwn wrthi'n cael ei weithredu er mwyn cynllunio dulliau asesu cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.

18 Gyda'i gilydd, mae'r blaenoriaethau hyn yn dangos symudiad o weithgareddau gwella sylfaenol i raglen fwy uchelgeisiol a chydlynol sydd wedi ei halinio â dyheadau strategol tymor hir y Brifysgol mewn perthynas â sicrhau effaith ym meysydd arloesiad, cynhwysiant a dinasyddiaeth fyd-eang.

## Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

19 Yn yr Adolygiad GA a gafwyd yn 2020, nodwyd un ganmoliaeth ac un cadarnhad. Ni roddodd y tîm adolygu hwnnw unrhyw argymhellion. Roedd y ganmoliaeth yn tynnu sylw at Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP) a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig i'r myfyrwyr gymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Roedd y cadarnhad yn cydnabod y camau a gymerwyd i weithredu proses fonitro flynyddol ddiwygiedig. Mewn ymateb, aeth y Brifysgol ati i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr, a gafodd ei fonitro gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd. Mae'r datblygiad wedi canolbwyntio ar adeiladu ar y cryfderau a welwyd, parhau i sicrhau bod y myfyrwyr yn ymwneud yn fwy â gwaith ymchwil, ac ymwreiddio gwelliannau yn y broses fonitro flynyddol ymhob rhaglen academaidd.

## 2. Beirniadaethau a chanfyddiadau'r adolygiad

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mae Prifysgol Caerdydd yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad ei fyfyrwyr.

### Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd un ganmoliaeth, sydd wedi ei chrynhoi isod.

- Effeithiolrwydd Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd fel cyfrwng sefydliadol ar gyfer gwella'r dysgu a'r addysgu.

### Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad GA yn gwneud un argymhelliad.

- Dylai'r Brifysgol gryfhau ei dulliau o gasglu barn y myfyrwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn deall diben y gynrychiolaeth yn glir, bod strwythurau cefnogi cyson ar gael i gynrychiolwyr, a bod y dulliau o ymgysylltu â'r corff myfyrwyr ehangach yn effeithiol.

### Y meysydd sydd o dan ddatblygiad parhaus

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd dri maes sydd o dan ddatblygiad parhaus, sydd wedi eu crynhoi isod.

- Ymwreiddio mentrau deallusrwydd artiffisial er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n gwbl effeithiol.
- Cryfhau'r diwylliant 'Prifysgol gyfunol' drwy'r sefydliad cyfan er mwyn gwella aliniad, sicrhau cysondeb, lleihau rhwyg ac ymwreiddio amcan yr arweinwyr uwch i greu sefydliad cydlynol.
- Parhau i fonitro'r trefniadau ar gyfer rheoli'r ddarpariaeth dramor, gan gydnabod bod rhai o'r partneriaethau'n dal i fod yn gynnar yn eu datblygiad, a chynnal dull goruchwylio trefnus a chyson er mwyn sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gallu cael eu hadnabod a'u lliniaru'n brydlon ac yn effeithiol.

## 3. Datganiad am ddull strategol y darparwr o sicrhau gwelliant

20 Mae dull strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant wedi ei adlewyrchu yn ei strategaeth 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd' drosfwaol, sy'n nodi'r cyfeiriad hyd 2035 ac yn pwysleisio dull pwrpasol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Mae'r strategaeth yn hysbysu blaenoriaethau'r Brifysgol ar gyfer dyfodol addysg a phrofiad ei myfyrwyr, ac mae'r rhaglen gyfredol o waith yn adeiladu ar y gwelliannau a gafwyd drwy'r rhaglen o brosiectau 'Addysg a Phrofiad Myfyrwyr' (APM) ar gyfer gwella'r portffolio, a weithredwyd rhwng 2021 a 2024 o dan dri phennawd thematig, sef 'Llwyddiant i Bawb', 'Athrawon sy'n Ysbrydoli', ac 'Amgylcheddau Dysgu Cynhwysol ac Arloesol'. Darparwyd tystiolaeth o'r gweithredu a wnaethpwyd a'r cynnydd a wnaed drwy ddarparu astudiaethau achos, esiamplau o brosiectau a dogfennau ategol, yn cynnwys pecyn data ac adroddiad cynhwysfawr am gau'r rhaglen APM (Hydref 2024) sy'n dangos y prif gyflawniadau a buddion a sicrhawyd gan y rhaglen APM, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd. Mae'r rhaglen drawsnewid APM 'Yn barod ar gyfer y dyfodol - Gweithredu strategaeth', a gwell prosesau o gasglu, adrodd a dadansoddi data APM, yn galluogi i'r Brifysgol adnabod ymhle y cafwyd gwelliannau a pha feysydd sy'n gofyn mwy o sylw.

21 Nododd y Brifysgol bedair blaenoriaeth benodol o ran gwelliant ar gyfer yr Adolygiad GA hwn, fel a ganlyn:

- Datblygu'r staff academaidd yn well
- Gwella'r amgylchedd dysgu digidol
- Gwella'r prosesau datblygu cwricwla
- Gwella'r arferion asesu ac ymdrin ag adborth.

22 Mae'r pedair blaenoriaeth gwelliant, sydd ar wahanol gamau o'u cyflawniad, yn is-set o'r gweithgareddau APM a wnaed yn flaenorol. Archwiliodd y tîm adolygu'r blaenoriaethau hyn yn fanylach ar y cyd ag aelodau uwch o'r staff, y staff academaidd, staff y gwasanaethau proffesiynol, a gyda'r myfyrwyr.

23 Archwiliodd y tîm adolygu'r camau pwrpasol y mae'r Brifysgol yn eu cymryd i wella profiad dysgu ei myfyrwyr, drwy archwilio'r defnydd a wneir o dystiolaeth i gynllunio, gweithredu a gwerthuso profiad dysgu'r myfyrwyr. Yn rhan o'r adroddiad hwn, mae'r tîm adolygu'n rhoi sylwadau ar ei ganfyddiadau yn y tri maes hyn, yn yr adrannau isod.

24 O ganlyniad cyffredinol i'r dull adolygu i sicrhau gwelliant a gwaith y tîm adolygu o ystyried y blaenoriaethau gwelliant, rhoddir datganiad am ddull strategol y Brifysgol o wella profiad academaidd ei myfyrwyr. Mae'r tîm adolygu'n rhoi'r datganiad a ganlyn am ddull strategol y Brifysgol o wella profiad academaidd ei myfyrwyr:

25 Mae dull strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant yn ddull bwriadol sy'n derbyn cyflenwad da o adnoddau ac sydd wedi ei alinio'n dda â'i his-strategaeth APM a'r rhaglen 'Yn barod ar gyfer y dyfodol' sy'n datblygu. Trefnir gwelliant drwy bortffolio cydlynol o flaenoriaethau, wedi ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu ffurfiol ac adroddiadau gwelliant blynyddol, a throsir y gwelliant yn arferion drwy brosiectau ledled y sefydliad cyfan, er enghraifft, ar ddatblygu'r staff academaidd, datblygu'r cwricwla, yr amgylchedd dysgu digidol, a meddwl o'r newydd am ddulliau asesu. Un o'r cryfderau arbennig yw effeithiolrwydd Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd (Academi DA) o ran cefnogi gweithrediad ar draws yr Ysgolion ac ymwreiddio gweithgareddau gwella mewn arferion academaidd.

26 Mae'r Brifysgol yn rhoi ystyriaeth i adborth ac argymhellion gan y corff myfyrwyr drwy ystod o fecanweithiau sy'n cynnwys y broses 'Barn y Myfyrwyr', cynrychiolwyr y myfyrwyr, Partneriaid Profiad Myfyrwyr a'r panel 'Caerdydd 100', ac mae adborth gan y myfyrwyr wedi hysbysu gwelliannau ar lefelau'r sefydliad a'r rhaglenni. Fodd bynnag, mae angen cryfhau ei dulliau o gasglu barn y myfyrwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn deall diben y gynrychiolaeth

yn glir, bod strwythurau cefnogi cyson ar gael i gynrychiolwyr, a bod y dulliau o ymgysylltu â'r corff myfyrwyr ehangach yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r Brifysgol yn dangos dull strategol gydlynol o sicrhau gwelliant, gan gydnabod bod angen cryfhau cysondeb y profiad drwy'r sefydliad cyfan.

## Sylwadau am y dull strategol a ddefnyddir i gynllunio gwelliannau ym mhrofiad y myfyrwyr

27 Canfu'r tîm adolygu fod dull y Brifysgol o gynllunio gwelliannau ym mhrofiad dysgu ei myfyrwyr wedi ei seilio mewn strategaeth sefydliadol sydd wedi ei disgrifio'n glir ac a ddatblygwyd drwy broses ymgynghori eang a phwrpasol. Cafodd y strategaeth 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd' gyfredol, a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2024, ei llunio drwy ymarfer ymgysylltu 'Y Sgwrs Fawr' drwy'r sefydliad cyfan. Roedd mwy na 2,100 o staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen, a hynny drwy arolygon, digwyddiadau 'neuadd y dref', a gweithdai trefnus sy'n edrych tuag at y dyfodol. Ei ganlyniad terfynol oedd cenhadaeth strategol sy'n canolbwyntio ar gydweithio i greu a rhannu gwybodaeth i genedlaethau'r dyfodol, gyda rhagoriaeth ym mhrofiad y myfyrwyr wedi ei sefydlu fel un o flaenoriaethau canolog y sefydliad. Mae blaenoriaethau gwelliant yn weithredol drwy raglen 'Yn barod ar gyfer y dyfodol' sy'n darparu fframwaith cynllunio cydlynol ar gyfer trosi'r dyhead strategol yn weithgareddau pwrpasol ar lefelau'r sefydliad a'r ysgolion.

28 Nododd y Brifysgol bod y rhesymeg am y blaenoriaethau gwelliant cyfredol yn adeiladu'n uniongyrchol ar waith y rhaglen APM, sef portffolio strwythuredig o brosiectau a wnaethpwyd rhwng 2021 a 2024 mewn ymateb i dystiolaeth sy'n dangos bod boddhad a pherfformiad y myfyrwyr wedi dirywio. Nododd y tîm adolygu fod y trawsnewid o'r rhaglen hon i'r ffrydiau gwaith 'Yn barod ar gyfer y dyfodol' cyfredol yn cynrychioli dilyniant pwrpasol o gynlluniau ar sail tystiolaeth, lle'r oedd y rhaglen gynharach wedi sefydlu amodau sylfaenol ar gyfer y trawsnewid mwy uchelgeisiol a geisir yn awr. Mae'r Hunan-ddadansoddiad yn darparu adroddiad credadwy o'r parhad hwn o fwriad strategol, a chadarnhaodd cyfarfodydd y tîm adolygu gydag arweinwyr uwch bod blaenoriaethau gwelliant wedi eu darganfod a'u gosod mewn dilyniant mewn ymateb uniongyrchol i dystiolaeth o berfformiad.

29 Hysbysir detholiad y Brifysgol o flaenoriaethau gan sail tystiolaeth seiliedig ar ddata sy'n defnyddio canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), dadansoddiad o fylchau rhwng graddau a ddyfernir, yn ogystal â data am gyrchfannau'r graddedigion a chyfraddau cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr. Olrheinir cynnydd drwy fesuriadau o lwyddiant y Brifysgol, yr adroddir arnynt i'r Cyngor bob chwarter, gan ddarparu mecanwaith systematig ar gyfer asesu a yw gweithgareddau gwella'n trosi'n welliannau mesuradwy i'r myfyrwyr. Mae arweinwyr uwch y Brifysgol o'r farn bod y seilwaith data hwn yn ganolog i ddull y Brifysgol o sicrhau atebolrwydd sefydliadol, gan alluogi i fuddsoddiad mewn gwella gael ei gyfeirio at feysydd lle mae'r dystiolaeth yn dangos yr angen mwyaf.

30 Yn dilyn cymeradwyo'r strategaeth 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd', mae blaenoriaethau'r myfyrwyr wedi eu hintegreiddio'n ffurfiol mewn cynllunio gwelliannau drwy'r cyflwyniad 'Barn y Myfyrwyr' blynyddol gan Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynhyrchu ymateb sefydliadol cyhoeddedig, ac mae wedi arwain at ddatblygu ffrydiau gwaith penodol, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â phrofiad y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig a darpariaeth gyfrwng Cymraeg.

31 Ond, clywodd y tîm adolygu nad yw profiadau'r myfyrwyr o gyfranogi yn y gwaith o gynllunio newidiadau sylweddol ar lefel y sefydliad wedi bod yn gyson. Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn tynnu sylw at bryderon am fanylder yr ymgynghoriad mewn perthynas â phrosesau strwythuro mawr, lle gwelwyd fod yr ymgysylltiad yn ymwneud fwy â darparu gwybodaeth na gweithio'n gydgynhyrchiol. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod eu gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio ar lefel yr ysgolion yn gyfyngedig ac anghyson. Roedd y tîm adolygu'n barnu bod sail i'r pryderon hyn a'u bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r argymhelliad mewn perthynas â llais y myfyrwyr (gwelwch baragraff 50).

## Sylwadau ar y camau a gymerir i sicrhau bod y blaenoriaethau gwelliant yn cael eu gweithredu'n effeithiol

32 Nododd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi mabwysiadu fframwaith cydlynol sydd wedi ei seilio ar brosiectau er mwyn gweithredu ei phedair blaenoriaeth gwelliant oedd yn derbyn sylw arbennig yn yr adolygiad (Datblygu'r staff academaidd, Datblygu'r cwricwla, Yr amgylchedd dysgu digidol, a Meddwl o'r newydd am ddulliau asesu) - fframwaith sydd wedi ei drefnu o amgylch cynnydd strwythuredig o'r cychwyniad, trwy'r darparu, hyd at ei ymwreiddio a'i gynnal. Mae'r gweithgareddau gweithredu'n cael eu llywio drwy'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (Pwyllgor APM), gydag atebolrwydd drwy'r Senedd a'r Cyngor, ac mae hyn yn darparu goruchwyliaeth sefydliadol glir ac yn sicrhau bod gweithgareddau gwella'n atebol i fonitro systematig ac adrodd ffurfiol. Mae Adroddiadau Gwelliant Blynyddol yn darparu mecanwaith trefnus ar gyfer asesu cynnydd ac effaith ar lefel y sefydliad, gan alluogi i'r Brifysgol adnabod meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach a chynllunio camau olynol o weithgareddau gwella. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod hwn yn fframwaith gweithredu trefnus sydd wedi ei reoli mewn ffordd briodol, ac sy'n adlewyrchu dull sefydliadol datblygedig o reoli newidiadau addysgol mawr.

33 Mae'r Academi DA wedi bod yn ganolog wrth weithredu'r blaenoriaethau gwelliant yn effeithiol ar draws Ysgolion y Brifysgol. Roedd y staff academaidd yn gyson gadarnhaol am ansawdd ymgysylltiad yr Academi DA a'i ymatebolrwydd, gan nodi bod yr Academi'n gweithredu'n rhagweithiol ac yn adweithiol, yn trefnu ei staff arbenigol i weithio ochr yn ochr â'r Ysgolion wrth lunio gweithdai pwrpasol ac yn rhoi cymorth penodol sy'n ateb cyd-destun meysydd astudio ac anghenion lleol. Mae'r Ysgolion hefyd yn cysylltu â'r Academi DA i geisio arweiniad a chefnogaeth mewn meysydd y maen nhw eu hunain wedi eu pennu fel rhai y mae angen eu datblygu, gan adlewyrchu perthynas broffesiynol wirioneddol gilyddol sy'n cefnogi'r gwaith o ymwreiddio gweithgareddau gwella ar lefel yr ysgolion. Mae'r Academi DA hefyd yn gweithredu fel cyfrwng sefydliadol effeithiol ar gyfer casglu a lledaenu arferion da drwy'r Brifysgol gyfan, yn cynnwys gwneud hynny drwy ei Chynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol lle mae arferion arloesol a ddatblygwyd mewn ysgolion unigol yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y Brifysgol.

34 Canfu'r tîm adolygu fod pob un o'r pedair blaenoriaeth gwelliant wedi eu gweithredu ar gyflymder da ac ar raddfa sylweddol. Yn y maes 'Meddwl o'r newydd am ddulliau asesu', mae'r Academi DA wedi cynnal oddeutu 48 o weithdai i gefnogi pob un o'r 24 Ysgol i weithredu polisïau diwygiedig ar gyfer marcio, safoni a rhoi adborth, a datblygwyd adnoddau arweiniad pwrpasol i bob Ysgol er mwyn sicrhau bod y gweithredu hwn yn briodol yn ei gyd-destun yn hytrach na bod yn generig. Mae mwy na 1,500 o staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llunio cwricwla, gweithdai sicrhau cynhwysiant a gweithgareddau datblygu'r Academi DA, er mwyn cefnogi'r flaenoriaeth 'Datblygu'r cwricwla'. Cafodd y rhaglen 'Amgylchedd Dysgu Digidol', a ddechreuodd fel prosiect peilot yn 2022, ei chefnogi gan dîm Addysg Ddigidol penodol lle cafodd pob Ysgol ei pharu ag aelod penodol o'r tîm i ddarparu cefnogaeth hirhoedlog i'r gweithredu drwy gydol y broses o drosglwyddo i'r platfform newydd. Mewn perthynas â'r flaenoriaeth 'Datblygu'r staff academaidd', mae statws Cymrawd Advance HE wedi ei dyfarnu fwy na 1,000 o weithiau hyd yma drwy raglen y Brifysgol sydd wedi ei hachredu gan Advance HE, ac mae hyn yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol a pharhaus y sefydliad yn natblygiad proffesiynol ei staff academaidd.

35 Clywodd y tîm adolygu gan fyfyrwyr eu bod wedi cymryd rhan weithredol yn y gwaith o weithredu blaenoriaethau gwelliant, drwy fecanweithiau partneriaeth trefnus. Mae Partneriaid Profiad Myfyrwyr cyflogedig yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu cwricwla, treialu adnoddau newydd a phrofi dulliau asesu diwygiedig, tra bo'r panel ymgynghori 'Caerdydd 100' yn darparu cronfa gynrychiadol o fyfyrwyr a ddetholir o blith yr amrywiol raglenni, dulliau astudio a nodweddion myfyrwyr, a cheisir eu mewnbwn ar brosiectau datblygu penodol. Mae cydweithrediad â'r myfyrwyr wedi bod yn amlwg mewn perthynas â nifer o'r blaenoriaethau, er enghraifft, yn y gwaith o

ddatblygu'r modiwl 'Uniondeb Academaidd' a luniwyd mewn cydweithrediad â Phartneriaid Profiad Myfyrwyr ac sydd wedi bod yn weithredol ers 2024, a hefyd yn y gwaith o gydgynhyrchu'r canllawiau gwaith grŵp a'r meini prawf asesu mewn Ysgolion unigol. Canfu'r tîm adolygu fod y rhain yn esiamplau cadarnhaol o bartneriaeth wirioneddol â'r myfyrwyr wrth weithredu gweithgareddau gwella.

36 Mae'r broses o werthuso heriau sy'n codi, er enghraifft, wrth ymwreiddio deallusrwydd artiffisial, yn dal i fod yn ei chamau cynnar ac mae angen mwy o arweiniad sefydliadol arni sy'n fwy systematig a chyson. Clywodd y tîm adolygu fod dull y Brifysgol o ymwreiddio deallusrwydd artiffisial yn nyluniad yr asesiadau'n cael ei ddatblygu drwy fframwaith 'dwy lôn' sy'n gwahaniaethu rhwng dulliau asesu diogel a dulliau eraill sy'n agored i dwyllo, er nad oedd y fframwaith hwn wedi ei ddosbarthu i Ysgolion eto ar adeg yr ymweliad adolygu. Dim ond yn yr wythnos cyn yr adolygiad yr oedd gweithgor y Brifysgol ar ddeallusrwydd artiffisial wedi cwrdd am y tro cyntaf, a nododd y tîm adolygu nad oedd unrhyw fyfyrwyr wedi eu cynnwys yn ei aelodaeth gychwynnol. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y canllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn cael eu gweithredu'n anghyson ar draws y modiwlau a'r rhaglenni. Nodwyd mai'r elfennau coll oedd canllawiau perthnasol i feysydd astudio penodol ar sut i astudio ac ymgysylltu ag offer deallusrwydd artiffisial yn eu meysydd, yn hytrach na dim ond nodi a oes caniatâd ai peidio i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn asesiad penodol. Er bod y dystiolaeth yn dangos dull gweithredu sydd ag adnoddau da ac sy'n strategol gydlynol, nododd y tîm adolygu mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r angen am ymwreiddio mentrau deallusrwydd artiffisial er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

37 Yn fwy cyffredinol, nododd y tîm adolygu fod cysondeb y blaenoriaethau gwelliant a brofir gan fyfyrwyr yn dal i fod yn amrywiol rhwng yr Ysgolion, ac er bod fframweithiau sefydliadol, modelau cyflawniad ac offer sicrhau gwelliant yn sylfaen strwythurol gref ar gyfer arferion cyson, maen nhw'n dal i gael eu gweithredu'n anghyfartal ar draws y Brifysgol. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod yr her hon, a bwriad rhannol y broses ailstrwythuro 'Ein Dyfodol Academaidd' sydd ar y gweill, a fydd yn cyfuno darpariaeth y Brifysgol dan 16 Ysgol mewn tri Choleg o 2026-27 ymlaen, yw ymdrin â'r amrywiaeth sydd wedi bodoli ers tro byd yn y ffordd y mae myfyrwyr yn profi gweithgareddau gwella ar draws gwahanol rannau o'r sefydliad. Nododd y tîm adolygu mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r angen am gryfhau'r diwylliant 'Prifysgol gyfunol' drwy'r sefydliad cyfan er mwyn gwella aliniad, sicrhau cysondeb, lleihau rhwyg ac ymwreiddio amcan yr arweinwyr uwch i greu sefydliad cydlynol.

## Sylwadau am y broses o werthuso canlyniadau'r blaenoriaethau gwelliant, ac o adrodd amdanynt, a'r ffordd y mae hyn yn hysbysu datblygiadau a gweithgareddau gwella yn y dyfodol

38 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu fframwaith ffurfiol ar gyfer gwerthuso ac adrodd am ei blaenoriaethau gwelliant, yn bennaf drwy'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol. Mae'r mecanwaith hwn yn strategol wahanol i'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol. Er bod yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol wedi ei lunio'n benodol i ddogfennu datblygiad, rhesymeg, ac effaith gweithgareddau gwella, mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn darparu sicrhad bod gofynion a safonau sylfaenol yn parhau i gael eu cyflawni. Mae'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol yn mynd drwy'r Pwyllgor APM, a'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol drwy'r Pwyllgor SAA, ac wedyn yn derbyn ystyriaeth gan y Senedd a'r Cyngor sy'n cynnal atebolrwydd a goruchwyliaeth. Nododd y tîm adolygu fod y strwythur adrodd deuol hwn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu adnabod meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach a chynllunio camau olynol o weithgareddau gwella.

39 Mae'r Brifysgol yn defnyddio nifer o fframweithiau trefnus ac offer seiliedig ar ddata i werthuso pa mor effeithiol yw ei mentrau. Mae fframwaith penodol ar gyfer sicrhau buddion yn monitro canlyniadau prosiectau yn erbyn mesuriadau'r Brifysgol o lwyddiant sy'n cynnwys boddhad y myfyrwyr, bylchau dyfarnu, a deilliannau'r graddedigion. I gefnogi hyn, mae dangosfyrddau 'Gwybodaeth Busnes' yn tracio dangosyddion allweddol er mwyn adnabod

meysydd penodol y mae angen gweithredu arnynt. Yn ogystal, hysbysir y gwaith gwerthuso gan amrywiaeth eang o fewnbynnau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth, yn cynnwys canlyniadau'r ACF, adborth mewnol gan y myfyrwyr, a phrosesau monitro rheoleiddiol. Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar bartneriaeth â'i myfyrwyr gan ddefnyddio'r system o Bartneriaid Profiad Myfyrwyr, ochr yn ochr â'r panel ymgynghori 'Caerdydd 100' a gyflwynwyd yn 2025/26, ac mae hyn hefyd yn dangos gwaith gwerthuso a gwella. Mae gwelliannau ymarferol megis y modiwl 'Uniondeb Academaidd', a meini prawf asesu a gynhyrchwyd ar y cyd â'r myfyrwyr, hefyd yn dangos sut mae adborth gwerthusol wedi ei drosi'n offer ymarferol a gwelliannau penodol gwirioneddol i'r myfyrwyr.

40 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y cylch hwn o adroddiadau gwerthusol yn gweithredu fel cyswllt hanfodol rhwng gweithgareddau cyfredol a chynllunio strategol ar gyfer y dyfodol. Mae prosesau sicrhau a monitro ansawdd yn sbarduno camau gwella penodol; er enghraifft, mae adnabod sgorau isel yn yr ACF neu fylchau dyfarnu, yn hysbysu'r broses o ddethol blaenoriaethau newydd mewn ffordd uniongyrchol. Ar hyn o bryd mae cynnydd y dyfodol yn cael ei drosglwyddo i mewn i'r rhaglen 'Yn barod ar gyfer y dyfodol' (2025-28), sy'n cyfateb yr adrodd gyda ffrydiau gwaith penodol, sef 'Llwyddiant Myfyrwyr', 'Cwricwlwm 2035' a 'Dysgu Hyblyg Gydol Oes'. Mae'r broses drosglwyddo hon yn dangos symudiad o weithgareddau gwella sylfaenol i raglen fwy uchelgeisiol sydd wedi ei halinio ag amcanion tymor hir mewn perthynas â sicrhau effaith ym meysydd arloesiad a chynhwysiant. Yn ogystal, nod y broses ailstrwythuro 'Ein Dyfodol Academaidd' (sy'n cyfuno'r ddarpariaeth academaidd mewn 16 Ysgol) yw mynd i'r afael ag anghysonderau ym mhrofiadau'r myfyrwyr a nodwyd mewn cylchoedd gwerthuso blaenorol.

41 Er gwaethaf y ffaith fod fframwaith yn ei le sydd ag adnoddau da ac sy'n strategol gydlynol, nododd y tîm adolygu nad yw metrigau sefydliadol lefel uchel yn llwyddo hyd yma i adlewyrchu gwelliannau cyson ar lefel y rhaglenni unigol, ac mae'r effaith yn gwahaniaethu ar draws y Brifysgol. Fel y nodwyd ym mharagraff 37, dylid cryfhau'r diwylliant 'Prifysgol gyfunol' er mwyn helpu i sicrhau mwy o gysondeb drwy'r Brifysgol gyfan.

42 Mae mentrau allweddol megis y rhaglen 'Yn barod ar gyfer y dyfodol' a'r broses ailstrwythuro 'Ein Dyfodol Academaidd' yn dangos dyhead i symud y tu hwnt i welliant a yrrir gan fetrigau a thuag at ddull cynaliadwy o sicrhau gwelliant. Clywodd y tîm adolygu y bydd cyflawni'r dyhead hwn yn gofyn i'r Brifysgol sicrhau bod gwelliannau mesuradwy ar lefel y sefydliad yn trosi'n newidiadau ystyrlon a chyson ym mhrofiad y myfyrwyr ar draws y rhaglenni a'r Ysgolion i gyd.

## 4. Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi ac yn gwella profiad dysgu ei fyfyrwyr

43 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr. Bu'r tîm adolygu'n ystyried ystod o ddogfennau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r prosesau sy'n galluogi i'r Brifysgol asesu a monitro effeithiolrwydd ac effaith ei dull strategol o gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys yr is-strategaeth Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (APM) a deunyddiau 'Yn barod ar gyfer y dyfodol', cylch gwaith, cofnodion a phapurau cysylltiedig y prif bwyllgorau sydd â chyfrifoldebau am y safonau academaidd, yr ansawdd a phrofiad y myfyrwyr, yn cynnwys y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd; yr Is-bwyllgor Cymeradwyo ac Ailddilysu Rhaglenni (Is-bwyllgor CARh); y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd a'r Pwyllgor APM; yr Adroddiadau Ansawdd Blynyddol a'r Adroddiadau Gwelliant Blynyddol; y Disgwyliadau Sefydliadol o ran strwythuro, llunio a darparu rhaglenni; Datganiadau o Safonau Graddau; astudiaethau achos o welliannau yn ymwneud â datblygu'r cwricwla; yr amgylchedd dysgu digidol, a meddwl o'r newydd am ddulliau asesu; ac adroddiadau 'Barn y Myfyrwyr' ac ymatebion y sefydliad iddynt. Mewn cyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr, cadarnhawyd bod camau cadarnhaol wedi eu cymryd i wella profiad dysgu'r myfyrwyr, gan adnabod meysydd sy'n gofyn mwy o sylw, er enghraifft, cyflawni mwy o gysondeb ym mhrofiad y myfyrwyr ar draws yr Ysgolion. Clywodd y tîm adolygu y dylai'r symudiad i 16 Ysgol o 2026-27 ymlaen, a'r gwaith o aildrefnu prosesau, helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

### Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

44 Mae'r Brifysgol yn gwneud defnydd clir a threfnus o bwyntiau cyfeirio allanol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr. Mae sail tystiolaeth y Brifysgol yn dangos yn glir bod gwaith y sefydliad yn cael ei fapio yn erbyn Cod Ansawdd y DU a'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, gan gysylltu disgwyliadau allanol â pholisïau, prosesau a threfniadau llywodraethu mewnol. Ar lefel y rhaglenni, mae gofyn i'r Is-bwyllgor CARh sicrhau bod argymhellion yn cyfateb â Rheoliadau Academaidd a Disgwyliadau Sefydliadol y Brifysgol o ran strwythuro, llunio a darparu rhaglenni. Mae'r Disgwyliadau Sefydliadol hyn yn darparu fframwaith clir ar gyfer llunio ac adolygu rhaglenni - yn cynnwys mewn perthynas â deilliannau dysgu, credydau a lefelau, patrymau asesiadau a chylchoedd adolygu - sy'n helpu i sicrhau bod pob proses o lunio cyfleoedd dysgu'n rhoi ystyriaeth i fframweithiau allanol a gofynion proffesiynol. Cadarnhawyd hyn mewn cyfarfodydd gyda'r staff academaidd, lle clywodd y tîm adolygu bod gweithgareddau datblygu ac ail-ddilysu rhaglenni wedi eu tywys gan gyfres o ddisgwyliadau sefydliadol clir, a bod gwaith mapio yn erbyn priodoleddau graddedigion yn helpu Ysgolion a meysydd astudio i adnabod bylchau a meysydd sydd angen eu gwella, gan ganiatáu maint priodol o hyblygrwydd ar lefel ddisgyblaethol.

45 Canfu'r tîm adolygu hefyd dystiolaeth i ddangos y defnyddir pwyntiau cyfeirio allanol nid yn unig i sicrhau bod trothwyon wedi eu cyrraedd, ond hefyd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn gymaradwy ac yn deg. Mae'r Datganiad o Safonau Graddau ar gyfer 2024 yn esbonio sut mae dosbarthiadau a safonau graddau'n cael eu monitro drwy'r system reoli ansawdd academaidd, tra bo'r gofrestr o raglenni sydd ag achrediad proffesiynol yn dangos ymgysylltiad systematig â gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio (cyrff PSRh), lle bo'n berthnasol. Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn cadarnhau bod byrddau arholi ac arholwyr allanol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â safonau academaidd i'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd cyn iddo ddyfarnu graddau, ac mae'n nodi na chodwyd unrhyw bryderon yn 2024-25 ynglŷn â safonau academaidd. Mae pwyntiau cyfeirio allanol, yn cynnwys gofynion cyrff PSRh a'r disgwyliadau ar gyfer y sector, yn rhan annatod o'r prosesau cymeradwyo ac adolygu o fewn y gwaith llywodraethu academaidd arferol, yn hytrach na chael eu trin fel ymarfer cydymffurfio ar wahân. Hefyd, mae materion sy'n hanfodol bwysig i'r sefydliad, megis cynhwysiant, hygyrchedd a chyflogadwyedd, yn cael eu hadeiladu i mewn i'r ddogfennaeth prosesau cymeradwyo, ond maent hefyd yn caniatáu hyblygrwydd i'r Ysgolion wrth eu gweithredu ar lefel leol. Ar y cyfan,

roedd y tîm adolygu o'r farn bod Prifysgol Caerdydd yn defnyddio pwyntiau cyfeirio allanol mewn ffordd gyson sy'n cefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr yn effeithiol, a bod ganddi drefnau priodol i'w llywodraethu.

## Sylwadau ac adborth gan y myfyrwyr

46 Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mecanweithiau ar gyfer casglu adborth gan ei myfyrwyr ac ymateb iddo. Mae'r Fframwaith Llais Myfyrwyr, sydd wedi ei greu ar y cyd ag Undeb y Myfyrwyr ac wedi ei ymwreiddio yn nhrefnau llywodraethu'r sefydliad, yn gosod disgwyliadau clir ynghylch cyfres amlhaenog o fecanweithiau sy'n cynnwys yr arolwg Barn y Myfyrwyr blynyddol, arolygon gwella modiwlau, Panelau Myfyrwyr-Staff ac arolygon sefydliadol. Mae'r defnydd a wneir o Swyddogion Ymgysylltu â Myfyrwyr mewn 14 o'r Ysgolion wedi cyfrannu at welliant mesuradwy: mae'r sgorau yn yr ACF ar gyfer y thema 'llais y myfyrwyr' wedi cynyddu o 16 pwynt canran rhwng 2021 a 2025, a chofnododd yr Ysgolion sydd wedi derbyn cymorth gan Swyddogion Ymgysylltu â Myfyrwyr gynyddiadau uwch na'r rheiny sydd heb gymorth o'r fath. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ei safle cymharol yn parhau i fod yn nhrydydd chwartel y sector addysg uwch cyfan, er ei fod wedi gwella'n sylweddol.

47 Mae effeithiolrwydd y mecanweithiau adborth yn amrywio rhwng ysgolion. Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn nodi nad oedd unrhyw un o'r Ysgolion wedi cyflwyno holl gofnodion gofynnol y Panelau Myfyrwyr-Staff i Undeb y Myfyrwyr yn 2023/24, ac mai dim ond dwy Ysgol oedd wedi bodloni'r gofyniad hwn yn 2024/25. Mae strwythur y Panelau Myfyrwyr-Staff a'u heffeithiolrwydd yn amrywio'n sylweddol rhwng yr Ysgolion. Mae trefniadau rhwng cynrychiolwyr y myfyrwyr cyn cyfarfodydd wedi eu hen sefydlu mewn rhai meysydd, ond yn beth dieithr i staff mewn meysydd eraill. Dywedodd rhai aelodau o'r staff eu bod yn dibynnu'n bennaf ar gysylltiad anffurfiol sydd, er ei fod yn cael ei werthfawrogi'n lleol, yn cyfyngu ar sicrhad bod adborth yn cael ei gofnodi'n systematig ymhob rhaglen ac y gweithredir arno.

48 Mae'r myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn teimlo eu bod yn llai gweladwy mewn prosesau ar gyfer adborth a phartneriaeth na'r myfyrwyr israddedig, ac mae llai o ymgysylltiad parhaus ar draws cylchoedd cynnal Panelau Myfyrwyr-Staff ar lefel ôl-raddedig a nodwyd gan staff academaidd. Mae'r Brifysgol wedi cydnabod bod ei hymgysylltiad â'r myfyrwyr mewn perthynas â'r cynigion 'Ein Dyfodol Academaidd' yn brofiad adweithiol, ac mewn ymateb i hynny, mae'r Brifysgol wedi ei hymrwymo i gyflwyno protocol ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â'i myfyrwyr ynglŷn â newidiadau trefniadol mawr. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod hyn wedi cael ei weithredu'n ddiriaethol adeg yr adolygiad.

## Datblygiadau i wella'r dysgu a'r addysgu a drefnir mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

49 Mae'r Brifysgol wedi datblygu dull trefnus o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr i sicrhau gwelliant, a'r Fframwaith Llais Myfyrwyr a'r cynllun Partneriaid Profiad Myfyrwyr yw'r prif fecanweithiau ar gyfer cydweithio. Yn rhan o'r cynllun Partneriaid Profiad Myfyrwyr, cyflogir oddeutu 30 o fyfyrwyr y flwyddyn i weithio ar brosiectau gwella, ochr yn ochr â'r staff a chynrychiolwyr academyddion y rhwydwaith 'Caerdydd 100'. Mae'r panel ymgynghori 'Caerdydd 100' yn elfen bwysig i gyflenwi'r strwythur ffurfiol o gynrychiolaeth, ac mae'n galluogi i'r myfyrwyr gyfrannu at y gwaith gwella mewn ffordd sy'n fwy uniongyrchol ac yn fwy parhaus nag y mae'r system bresennol o Banelau Myfyrwyr-Staff wedi gallu ei ddarparu'n gyson. Cadarnhaodd y myfyrwyr a'r staff bod ymgysylltiad ymatebol ac adeiladol yn digwydd ar lefel y rhaglenni.

50 Canfu'r tîm adolygu fod y strwythur ffurfiol o gynrychiolaeth yn faes sydd angen ei ddatblygu. Dywedodd cynrychiolwyr y myfyrwyr a swyddogion sabothol fod y strwythur cyfredol - lle mae cynrychiolwyr ar lefel y dosbarth yn cysylltu'n uniongyrchol ag adran weithredol Undeb y Myfyrwyr heb y strwythurau canolog digonol - yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cyffredinol y system o ran sianelu barn y myfyrwyr i mewn i brosesau ansawdd ar bob lefel.

Roedd anghysondeb yn nealltwriaeth y myfyrwyr o nodau a mecanweithiau'r amrywiol lwybrau cynrychiolaeth sydd ar gael iddynt, ac mae'r tîm adolygu o'r farn bod hyn yn peri risg i ymgysylltiad effeithiol â'r corff myfyrwyr ehangach. Mae'r myfyrwyr wedi eu cynrychioli ar bob un o bwyllgorau pwysig y Brifysgol ac mewn prosesau cymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni, ac mae ymgynghoriad â'r myfyrwyr wedi hysbysu'r gwaith o ddatblygu cwricwla a pholisïau, gan gynnwys Polisi Adborth Academaidd a Chwricwlwm 2035. Fodd bynnag, oherwydd yr anghysondeb yn y cydymffurfiad â'r gofynion ynglŷn â Phanelau Myfyrwyr-Staff, nid oes digon o sicrwydd bod gweithgareddau partneriaeth yn gweithredu i'r un safon ar draws yr Ysgolion i gyd. Mae'r tîm adolygu'n **argymell** y dylai'r Brifysgol gryfhau ei dulliau o gasglu barn y myfyrwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn deall diben y gynrychiolaeth yn glir, bod strwythurau cefnogi cyson ar gael i gynrychiolwyr, a bod y dulliau o ymgysylltu â'r corff myfyrwyr ehangach yn effeithiol.

51 Cododd Undeb y Myfyrwyr bryderon yn ffurfiol am fanylder ac amseriad yr ymgynghoriad â'r myfyrwyr am y cynigion 'Ein Dyfodol Academaidd', ac mae cyflwyniad y myfyrwyr yn disgrifio'r cyfathrebu am newidiadau strwythurol mawr a brofwyd gan y myfyrwyr yn gyfathrebu adweithiol yn hytrach na rhagweithiol. Mae'r Brifysgol wedi ei hymrwymo i gyflwyno protocol ar gyfer ymgysylltu â'i myfyrwyr ynglŷn â newidiadau trefniadol mawr, ac mae'r tîm adolygu'n ystyried bod yr ymateb hwn yn briodol. Mae'r tîm adolygu'n nodi y byddai cyfathrebu â'r myfyrwyr mewn ffordd fwy effeithiol a mwy trugarog trwy gydol y cyfnodau o newid sefydliadol yn cryfhau'r berthynas bartneriaeth ymhellach.

## Effeithiolrwydd y strategaeth addysgu a dysgu o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu

52 Canfu'r tîm adolygu fod strategaeth dysgu ac addysgu'r Brifysgol yn effeithiol o ran gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu am ei bod wedi ei geirio'n glir, ei llywio gan y sefydliad a'i throsi'n rhaglen sylweddol o weithgareddau gwella. Mae'r is-strategaeth APM a'r disgrifiad o'r fenter drawsnewid 'Yn barod ar gyfer y dyfodol' yn gosod gwella'r addysg yn flaenoriaeth sefydliadol aml-flwyddyn, wedi'i chefnogi gan bortffolio o waith sy'n canolbwyntio ar lwyddiant myfyrwyr, athrawon sy'n ysbrydoli, ac amgylchedd arloesol a chynhwysol. Mae'r datblygiad yn cael ei fonitro drwy Adroddiadau Gwelliant Blynyddol, sy'n derbyn ystyriaeth drwy gyfrwng y Pwyllgor APM ac adroddir am y datblygiad i'r Senedd a'r Cyngor, ac mae hyn yn dangos bod y strategaeth wedi ei hymwreiddio mewn trefniadau llywodraethu a goruchwylio ffurfiol yn hytrach na gweithredu fel cyfres o brosiectau datgymalog. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod hyn yn darparu fframwaith strategol a gweithredol clir ar gyfer gwella'r cyfleoedd dysgu drwy'r sefydliad cyfan.

53 Dangosir effeithiolrwydd y strategaeth hefyd yn y ffordd y mae blaenoriaethau strategol wedi eu trosi'n fentrau ledled y sefydliad cyfan gydag estyniad a graddfa amlwg. Mae'r astudiaethau achos o welliannau'n dangos gwaith parhaus ar yr holl flaenoriaethau o ran datblygu'r staff academaidd, datblygu'r cwricwla, yr amgylchedd dysgu digidol, a meddwl o'r newydd am ddulliau asesu, gyda ffocws cyson ar wella'r arferion asesu a dyluniad y dysgu, a sicrhau bod profiad y myfyrwyr yn fwy cyson a bod y ddarpariaeth yn fwy cynhwysol. Dywedodd y staff bod Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd (Academi DA) yn ganolog i drosi bwriad strategol yn newid ymarferol, trwy arweinyddiaeth ragweithiol sefydliadol a hefyd drwy gymorth pwrpasol wedi'i deilwra i'r Ysgolion unigol a chyd-destunau'r disgyblaethau penodol. Er enghraifft, clywodd y tîm adolygu fod mwy na 1,500 o staff wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau llunio cwricwla a sicrhau cynhwysiant sy'n gysylltiedig â'r flaenoriaeth 'Datblygu'r cwricwla', bod y rhaglen sy'n ymwneud â'r amgylchedd dysgu digidol wedi ei chefnogi drwy bersonau cyswllt enwebedig i bob Ysgol, a bod pob un o'r 24 Ysgol wedi derbyn cefnogaeth i weithredu polisïau diwygiedig ar gyfer marcio, safoni a rhoi adborth. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y dystiolaeth hon o weithredu ar gyfradd a chyflymder da'n ddangosydd arwyddocaol o effeithiolrwydd y strategaeth.

54 Canfu'r tîm adolygu hefyd dystiolaeth i ddangos bod y strategaeth yn gwella'r cyfleoedd dysgu mewn ffyrdd sy'n ystyrlon i'r myfyrwyr. Cafodd nifer o weithgareddau gwella eu siapio'n

benodol gan adborth myfyrwyr neu gyfranogiad uniongyrchol gan fyfyrwyr. Roedd hynny'n cynnwys gwaith yn ymwneud ag asesu a rhoi adborth, llunio cyfleoedd dysgu digidol a datblygu cwricwla. Disgrifiodd y myfyrwyr a'u cynrychiolwyr esiamplau o newidiadau cadarnhaol oedd yn cynnwys strwythurau mwy eglur o fewn yr amgylchedd dysgu digidol, dulliau mwy cyson o lunio asesiadau mewn rhai meysydd, a chyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau gwella drwy Bartneriaid Profiad Myfyrwyr a'r fenter 'Caerdydd 100'. Fodd bynnag, roedd y myfyrwyr hefyd yn disgrifio rhywfaint o amrywiaeth yn y profiadau y maen nhw'n eu cael o flaenoriaethau'r sefydliad ar draws yr Ysgolion a'r rhaglenni, yn enwedig mewn perthynas ag arferion asesu a chyfathrebu, a chanllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial. Felly, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y strategaeth dysgu ac addysgu'n gweithio'n effeithiol a'i bod wedi cyflawni gwelliannau sylweddol yn ansawdd y cyfleoedd dysgu, gan hefyd nodi bod cysondeb y profiad a gaiff y myfyrwyr o dderbyn y buddion hyn drwy'r sefydliad cyfan yn dal i fod yn **faes sydd o dan ddatblygiad parhaus**, wrth i'r Brifysgol barhau i gryfhau'r diwylliant 'Prifysgol gyfunol'.

## Gwerthusiad o ba mor effeithiol yw'r mentrau i wella'r dysgu a'r addysgu

55 Prif gyfrwng y Brifysgol ar gyfer gwella'r dysgu a'r addysgu yw'r Academi DA, sef uned sefydliadol benodol sydd ag oddeutu 60 neu fwy o staff ac sy'n darparu cymorth cynhwysfawr ynglŷn â gwaith datblygu, cynghori a darparu i Ysgolion ymhob rhan o'r sefydliad cyfan. Mae'r Academi DA yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn adweithiol: mae staff arbenigol yn estyn allan yn weithredol i Ysgolion er mwyn darganfod anghenion datblygu ac i lunio rhaglenni cymorth wedi'u teilwra, tra bo'r Ysgolion yn eu tro yn troi at yr Academi DA i geisio cymorth gyda meysydd y maen nhw eu hunain wedi eu nodi fel rhai sydd angen eu datblygu. Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y berthynas gilyddol hon yn adlewyrchu diwylliant sefydliadol sydd wedi ei ymwreiddio'n gadarn, lle deellir bod gwelliant mewn dysgu ac addysgu'n ymdrech gydweithredol a rennir rhwng yr Academi DA a chydweithwyr academaidd. Mae'r Academi DA yn cael ei gefnogi ymhellach gan 35 o Bartneriaid Profiad Myfyrwyr cyflogedig sy'n cyfrannu at weithgareddau gwella mewn perthynas ag amrediad o flaenoriaethau ac y mae eu cyfranogaeth yng ngwaith yr Academi DA yn dangos ymrwymiad sylweddol gan y sefydliad i weithio â'i fyfyrwyr mewn ffordd sy'n mynd y tu hwnt i ymgynghori yn unig.

56 Cadarnhaodd y staff academaidd o bob rhan o nifer o Ysgolion bod cymorth yr Academi DA yn gymorth o safon dda, yn ymatebol ac yn ddisgyblaethol sensitif. Nodwyd yn arbennig mor werthfawr yw cydweithio â swyddogion arbenigol yr Academi DA i lunio gweithdai sydd wedi eu halinio'n fanwl gywir ag anghenion yr Ysgolion unigol, gan ddangos yn glir mor effeithiol yw gwaith yr Academi DA mewn amrywiaeth o agweddau. O ganlyniad i raglen gymrodoriaeth achrededig yr Academi DA, dyfarnwyd statws Cymrawd Advance HE fwy na 1,000 o weithiau, gyda staff yn nodi bod y gyfranogaeth wedi gwella eu gwybodaeth addysgol yn sylweddol, wedi newid eu harferion addysgu ac wedi hybu eu hyder a'u hymdeimlad o berthyn yn y byd academaidd. Mae cydweithrediad â'r myfyrwyr wedi ei ymwreiddio yn sylfaen gweithgareddau'r Academi DA, ac mae'r enghreifftiau cadarn o hynny'n cynnwys modiwl 'Uniondeb Academaidd' y Brifysgol (sydd wedi bod yn weithredol ers 2024) a luniwyd ar y cyd â Phartneriaid Profiad Myfyrwyr, a chanllawiau gwaith grŵp a ddatblygwyd gan y staff ar y cyd â'r myfyrwyr. Enillwyd gwobr genedlaethol gan y prosiect 'Unboxing Your Inbox', a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'r myfyrwyr, gyda chymorth yr Academi DA, ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y cyflawniad hwn wedi ei gydnabod y tu hwnt i'r Brifysgol. O ystyried y canlyniadau hyn ochr yn ochr â'r tueddiadau o welliant yng nghanlyniadau'r ACF ac yn y data am gynnydd a dyfarniadau'r myfyrwyr y mae ei rhaglen wella, yn ôl y Brifysgol, yn rhannol gyfrifol amdano, rydyn ni'n gweld tystiolaeth ystyrlon fod mentrau gwella'n cael eu trosi'n welliannau ym mhrofiad dysgu'r myfyrwyr.

57 Mae'r Brifysgol yn gwerthuso effeithiolrwydd ei gweithgareddau gwella drwy gyfuniad o ddata am berfformiad, Adroddiadau Gwelliant Blynyddol, prosesau o adolygu modiwlau a modelau cyflawniad trefnus sy'n ymwneud ag Addysg Gynhwysol, Dysgu Digidol a Llais y Myfyrwyr. Ystyrir Adroddiadau Gwelliant Blynyddol drwy'r Pwyllgor APM sy'n goruchwylio'n ffurfiol, ar lefel

y sefydliad, a yw blaenoriaethau gwelliant yn sicrhau'r effeithiau a fwriadwyd. Yn ogystal, mae'r Academi DA yn gweithredu fel prif gyfrwng y Brifysgol ar gyfer rhannu arferion da ar draws yr Ysgolion, yn cynnwys gwneud hynny drwy ei Chynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol sy'n dod â chydweithwyr at ei gilydd o bob rhan o'r sefydliad i drafod meysydd thematig allweddol ac yn defnyddio arferion arloesol ac astudiaethau achos yr Ysgolion unigol i alluogi graddfa dda o ddysgu ar draws ffiniau disgyblaethau (gwelwch baragraff 90).

58 Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y Brifysgol am effeithiolrwydd yr Academi DA fel cyfrwng sefydliadol ar gyfer gwella'r dysgu a'r addysgu. Gwelwyd hyn yn ymgysylltiad rhagweithiol a phwrpasol yr Academi DA â'r Ysgolion, ei rôl ganolog mewn annog y staff academaidd i geisio cydnabyddiaeth broffesiynol am eu harferion addysgu, ei gwaith o ymwreiddio cydweithrediad gwirioneddol â'r myfyrwyr mewn gweithgareddau gwella, a'i swyddogaeth fel prif gyfrwng y Brifysgol ar gyfer casglu a lledaenu arferion da. Mae dull y Brifysgol o sicrhau cydnabyddiaeth broffesiynol i'w staff drwy ddefnyddio'r Academi DA wedi ei archwilio ymhellach ym mharagraffau 63 a 64.

## Y cymorth academaidd a bugeiliol a'r cymorth dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr

59 Mae'r Brifysgol yn darparu cymorth academaidd a bugeiliol a chymorth dysgu drwy Ganolfan Bywyd y Myfyrwyr a sefydlwyd yn 2021 i gyfuno cymorth iechyd a lles, gwasanaethau anabledd, cyngor ariannol, cymorth sgiliau astudio academaidd, a'r ddarpariaeth 'Dyfodol Myfyrwyr', gyda chefnogaeth y gwasanaeth cysylltiad cyntaf 'Cyswllt Myfyrwyr'. Yn gyffredinol, mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o Ganolfan Bywyd y Myfyrwyr a'r llwybrau sydd ar gael iddyn nhw gael cymorth, er nad oedd dealltwriaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt yn amlwg bob tro ymhob grŵp myfyrwyr.

60 Darperir cymorth academaidd drwy'r system Tiwtoriaid Personol, ac mae'r gwaith wedi ei danategu gan bolisi sy'n gosod y safonau gofynnol ar gyfer cysylltiad. Canfu adolygiad y Brifysgol ei hun fod cwmpas a chyflawniad swyddogaeth y tiwtor personol yn anghyson rhwng yr Ysgolion a bod y defnydd o ddata i hysbysu cymorth rhagweithiol yn gyfyngedig. Penderfynodd y Pwyllgor APM gymeradwyo symudiad i fodel Llwyddiant Myfyrwyr ym mis Ionawr 2024, gan drosglwyddo cyfrifoldeb bugeiliol i dimau Cynnydd Myfyrwyr proffesiynol sy'n gweithio ochr yn ochr â chynghorwyr academaidd, er bod y trosglwyddiad hwn ar gam cynnar yn ei weithrediad ar adeg yr adolygiad ac nad oes tystiolaeth eto o'i effaith ar gysondeb y cymorth. Mae'r Academi DA yn darparu hyfforddiant i diwtoriaid personol, ond nid oedd tystiolaeth o fonitro cyson o'r nifer a gymerodd yr hyfforddiant ar draws yr Ysgolion.

61 Mae cyflwyniad y myfyrwyr yn nodi pryderon sylweddol ynglŷn ag argaeledd gwasanaethau lles gan nodi mai'r sefyllfa, fel ydoedd ym mis Chwefror 2025, oedd amseroedd aros o hyd at 18 wythnos ar gyfer cwnsela ac 11 wythnos ar gyfer apwyntiadau cymorth lles. Y sgorau yn yr ACF ar gyfer 'ymwybyddiaeth o gymorth lles meddwl' oedd 70.1% o'i gymharu â meincnod y sector o 77.1% yn 2024, gan arwain at gyflwyno cynllun gweithredu penodol i'r corff rheoleiddio. Soniodd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig bod y gwasanaethau fel petaent wedi eu llunio'n bennaf ar gyfer myfyrwyr israddedig, ac nad yw gweithrediad rhai darpariaethau a gynigir yn ystod y tymor yn unig yn cyd-fynd â natur rhaglenni ymchwil. Nododd staff bugeiliol fod myfyrwyr sydd angen teithio bob dydd, fel y rheini ar leoliad gwaith, yn grwpiau sydd angen allgymorth mwy rhagweithiol.

## Y ffordd y mae'r staff yn cael eu penodi a'u hyfforddi a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt

62 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu cyfres gynhwysfawr o ganllawiau i gefnogi'r gwaith o benodi staff academaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol, a ddarperir drwy system sefydliadol ar sail mewnrwyd sy'n ymwneud â phob cam o'r broses benodi gyfan, o greu'r swydd i benodi staff. Mae Rheolwr Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am adolygu pob un o'r manylebau swydd a pherson

cyn hysbysebu'r swyddi, yn darparu gwiriad sicrhau ansawdd pan mae'r rôl yn cael ei diffinio ac yn sicrhau ei bod yn alinio â Fframwaith Academaidd Caerdydd a Fframwaith Proffesiynol Caerdydd sy'n cael eu hymwreiddio'n ddiofyn yng nghynllun y swyddi academaidd a swyddi yn y gwasanaethau proffesiynol. Mae gofyn i gyfansoddiad pob panel cyfweld gyfateb â meini prawf penodol, a defnyddir proses gyfweld sy'n cyfeirio at feini prawf i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu hasesu mewn ffordd gyson a chyfartal. Ym mis Ebrill 2024, cyflwynodd y Brifysgol ei menter ar gyfer sicrhau amrywiaeth ar banelau cyfweld. O dan y fenter hon, cyhoeddir pob swydd ar wefan MS Teams benodol i fynd ati'n weithredol i geisio cynnwys aelodau o'r staff sydd o leiafrifoedd ethnig ar banelau. Mae hyn yn alinio'n uniongyrchol â'r ymrwymiadau sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 y Brifysgol a'r dyletswyddau o dan ei Siarter Cydraddoldeb Hiliol. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y gyfres o ganllawiau penodi'n gydlynol, wedi eu rheoli'n briodol ac wedi eu halinio'n dda ag ymrwymiadau'r Brifysgol i gydraddoldeb, gan nodi bod y fenter ar gyfer sicrhau amrywiaeth ar banelau cyfweld yn gam cadarnhaol a rhagweithiol tuag at ymwreiddio mwy o amrywiaeth mewn arferion penodi.

63 Mae dull y Brifysgol o ddatblygu ei staff wedi ei danategu gan fframwaith wedi'i ddisgrifio'n glir sy'n cysylltu datblygiad proffesiynol, proses adolygu perfformiad a datblygiad gyrfaol academaidd â'i gilydd. Disgwylir i bob aelod o'r staff academaidd ymgysylltu â fframwaith academaidd Prifysgol Caerdydd, gyda naw o 14 gofyniad y fframwaith yn ffurfio safon sylfaenol ddiffiniedig yr asesir ymgysylltiad â byd addysg yn ei herbyn yn rhan o'r broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (proses ADP) flynyddol. Mae addysg wedi ei gosod yn amlwg fel un o elfennau craidd dyrchafiad ar sail perfformiad, felly disgwylir i'r staff ddangos ymgysylltiad â'r gwaith o wella'r dysgu a'r addysgu yn hytrach na'i drin fel rhywbeth ategol i'w prif gyfrifoldebau. Mae amrywiaeth o lwybrau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) strwythuredig yn cefnogi'r disgwyliad hwn wrth ei arfer, yn cynnwys datblygiad sy'n berthnasol i swyddi penodol, er enghraifft, cyfleoedd DPP penodol i bob aelod o'r staff sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau tiwtor personol, sesiynau galw heibio wythnosol ar gyfer datblygiad gyrfaol, yn ogystal â llwybrau dyrchafu ffurfiol sy'n llawer mwy eglur erbyn hyn ac wedi eu halinio'n amlycach ag ymgysylltiad DPP a chanlyniadau'r broses ADP nag oeddent gynt. Mae'r Brifysgol hefyd yn darparu hyfforddiant gorfodol gyda thâl i diwtoriaid sy'n raddedigion, a ddarperir gan yr Academi DA, sy'n gweithredu'n aml fel y cyswllt gwirioneddol cyntaf rhwng yr Academi DA ac aelodau o'r staff addysgu sydd ar gamau cynnar yn eu gyrfaoedd, ac sy'n gweithredu fel porth i gydweithrediad a gweithgareddau datblygu pellach.

64 Mae buddsoddiad y Brifysgol mewn rhaglen achrededig sy'n arwain at gydnabyddiaeth broffesiynol i arferion addysgu'n cynrychioli un o feysydd pwysicaf ei gweithgareddau datblygu staff, sef maes lle mae'r Academi DA yn cyflawni rôl allweddol a hynod effeithiol. Fel y nodwyd ym mharagraff 58, cymeradwywyd yr Academi DA gan y tîm adolygu am ei heffeithiolrwydd wrth annog y staff i geisio cydnabyddiaeth broffesiynol am eu harferion addysgu, ac, o ganlyniad i'w rhaglen gymrodoriaeth achrededig, mae statws Cymrawd Advance HE wedi ei dyfarnu fwy na 1,000 o weithiau hyd yma. Cadarnhaodd y staff fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi gwella eu dealltwriaeth addysgol yn sylweddol, wedi newid eu harferion addysgu o ddydd i ddydd ac wedi hybu eu hyder yn y byd academaidd, yn cynnwys y staff anacademaidd hynny yr oedd statws Cymrawd wedi cryfhau eu hymdeimlad o berthyn a'u hunaniaeth broffesiynol yn y cyd-destun hwnnw. Mae cyfranogaeth yn y rhaglen gymrodoriaeth yn alinio â'r Fframwaith Dyrchafu Academaidd ac mae wedi ei ymwreiddio yn strwythur llywodraethu'r Grŵp Strategaeth DPP, sy'n darparu atgyfnerthiad sefydliadol ffurfiol ar gyfer pwysigrwydd strategol y rhaglen. Nododd y tîm adolygu fod graddfa'r cyfranogiad yn y rhaglen gymrodoriaeth yn dda iawn. Cydnabu'r Brifysgol nad oedd yr ymgysylltiad yr un fath eto ar draws yr holl Ysgolion, ac mai'r aliniad â'r broses ADP a goruchwyliaeth y Grŵp Strategaeth DPP yw prif fecanweithiau'r sefydliad ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad mwy cyson.

## Y ffordd y mae arferion da'n cael eu lledaenu

65 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu amrywiaeth o fecanweithiau i gefnogi lledaenu arferion da mewn dysgu ac addysgu, ac mae ei Hacademi DA yn gweithredu fel prif gyfrwng y sefydliad ar gyfer rhannu ac ymwreiddio arferion effeithiol ar draws ei Hysgolion. Fel y nodwyd ym mharagraff 58, cymeradwywyd yr Academi DA gan y tîm adolygu am ei heffeithiolrwydd yn y rôl hon. Mae Cynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol yr Academi DA yn gweithredu fel prif gyfrwng y sefydliad i ddod â chydweithwyr at ei gilydd o bob rhan o'r Brifysgol i drafod meysydd thematig allweddol a darparu fforwm trefnus lle mae arferion arloesol a ddatblygwyd mewn ysgolion unigol yn cael eu rhannu'n ehangach ar draws y Brifysgol. Mae'r Academi DA hefyd yn defnyddio ei chynnig cymorth pwrpasol fel cyfrwng ar gyfer dysgu ar draws ffiniau ysgolion, gyda staff arbenigol sy'n defnyddio profiad un ysgol i hysbysu gweithgaredd gwella ysgol arall, er mwyn sicrhau nad yw arferion da'n parhau wedi eu hynysu o fewn o fewn y disgyblaethau y maent yn tarddu ohonynt. Esiampl ddangosol o'r ymagwedd hon yw gwaith yr Ysgol Cemeg o ddatblygu rhestr termau technegol amlieithog, gyda chymorth ariannol yr Academi DA ar gyfer interniaeth dros yr haf, a gyflwynwyd yn y gynhadledd flynyddol ac a rannwyd wedi hynny gydag Ysgolion eraill lle ystyriwyd ei fod yn berthnasol.

66 Yn ogystal â'r gynhadledd a'r cynnig cymorth pwrpasol, mae'r Brifysgol wedi datblygu ystod o offer ac adnoddau ychwanegol i gefnogi dulliau trefnus o ledaenu arferion effeithiol. Mae'r Canllaw Arfer Da Dysgu Canolog yn darparu pwynt cyfeirio sylfaenol ar gyfer safonau dysgu digidol drwy'r Brifysgol gyfan. Datblygwyd y canllaw hwn gan ystyried barn y myfyrwyr, ac mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ehangach y Brifysgol i sicrhau bod ei myfyrwyr a'i staff fel ei gilydd yn deall y rhesymeg dros rannu arferion da. Hefyd, mae'r Academi DA wedi datblygu Pecyn Cymorth Datblygiad Addysgol, a lansiwyd ym mis Hydref 2023, sydd wedi ei lunio'n benodol i ymwreiddio rhannu arferion da fel proses sefydliadol reolaidd yn hytrach na gweithgaredd gyda chyfyngiad amser arno. Mae'r tîm Datblygu Addysg yn defnyddio ffynonellau allanol o arferion da i hysbysu a diweddaru'r datblygiad y mae'n ei gynnig, yn cynnwys mewn meysydd megis dad-drefedigaethu'r cwricwlwm, ac mae hyn yn sicrhau bod dull lledaenu'r Brifysgol yn edrych tuag allan ac yn cael ei hysbysu gan ddatblygiadau drwy'r sector cyfan, yn ogystal â'i sail tystiolaeth fewnol ei hun. Yn y maes 'Datblygu'r staff academaidd', cynhelir a rhennir arferion da drwy gymuned ddysgu, cynlluniau gwersi a'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol, gan ddarparu nifer o sianelau sy'n eu hatgyfnerthu ei gilydd ar gyfer cynnal dulliau addysgu effeithiol, y tu hwnt i gylchoedd prosiectau unigol.

67 Mae'r Brifysgol yn defnyddio cyfres o fodelau cyflawniad a gwelliant, sy'n ymwneud ag Addysg Gynhwysol, Dysgu Digidol a Llais y Myfyrwyr, fel fframweithiau trefnus ar gyfer adnabod, meincnodi a lledaenu arferion da ar lefel yr Ysgolion. Canfu adolygiad o fodiwlau dysgu digidol yn erbyn meincnodau a meini prawf manylach fod oddeutu hanner y sampl oedd dan sylw wedi gwella, ac roedd yr ymarfer hwn hefyd wedi galluogi i'r Brifysgol adnabod themâu lle mae angen cefnogi datblygiad ymhellach, gan ddangos fod y model yn gweithredu fel cyfrwng gwerthuso arferion yn ogystal â lledaenu arferion da. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y gofyniad nad yw modiwlau sydd ar y platfform dysgu digidol yn treiglo'n awtomatig o un flwyddyn i'r nesaf yn nodwedd cynllunio doeth, a oedd yn annog staff i adnewyddu eu darpariaeth yn unol â'r canllaw arfer da yn hytrach na chaniatáu i gynnwys y modiwl fynd yn hen. Nododd y tîm adolygu fod y Brifysgol wedi cydnabod bod ymgysylltiad â'r modelau cyflawniad a gwelliant yn amrywio rhwng yr Ysgolion ac roedd yn barnu bod sicrhau y bydd y fframweithiau hyn yn cael eu gweithredu mewn ffordd fwy cyson drwy'r sefydliad cyfan yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

## Crynodeb o'r trefniadau i gefnogi a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

68 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan Brifysgol Caerdydd drefniadau priodol ac effeithiol i gefnogi a gwella profiad dysgu ei myfyrwyr. Mae'r mentrau gwella ar draws pedair blaenoriaeth y Brifysgol wedi eu trefnu'n dda a'u rheoli'n bwrpasol, ac mae'n amlwg eu bod wedi eu gweithredu'n eang. Mae'r Academi DA yn gweithredu fel cyfrwng sefydliadol eithriadol effeithiol ar gyfer llunio,

gweithredu a gwerthuso gweithgareddau gwella (gwelwch baragraff 53). Mae cydweithrediad â'r myfyrwyr wedi ei ymwreiddio yn sylfaen y gweithgareddau hyn, er enghraifft, y panel ymgynghori 'Caerdydd 100', 35 o Bartneriaid Profiad Myfyrwyr cyflogedig, ac ystod o adnoddau i gefnogi gwelliant sydd wedi eu cynhyrchu ar y cyd â'r myfyrwyr ac sy'n cynnwys y modiwl 'Uniondeb Academaidd' a chanllawiau gwaith grŵp. Yn yr enghreifftiau hyn, mae tystiolaeth gadarn i'w gweld sy'n dangos partneriaeth ystyrlon a dilys â'r myfyrwyr yn hytrach na chyfranogaeth docynistaidd. O ganlyniad i'r defnydd a wneir gan y Brifysgol o ddata a meincnodau allanol i yrru a gwerthuso gwelliannau, gan gynnwys y symudiad i gymharu meysydd astudio â meincnodau'r sector, yn ogystal â'r targedau wedi eu diffinio'n glir ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig a addysgir, mae'r cysylltiad wedi ei gryfhau ymhellach rhwng gweithgareddau sicrhau ansawdd a'r gwaith parhaus o ddatblygu profiad dysgu'r myfyrwyr.

69 Mae trefniadau'r Brifysgol ar gyfer penodi a datblygu staff yn gydlynol ac wedi eu rheoli a'u halinio'n dda ag ymrwymiadau'r sefydliad i gydraddoldeb. Mae'r gyfres drefnus o ganllawiau penodi, ynghyd â'r fenter ar gyfer sicrhau amrywiaeth ar banelau cyfweld a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2024, yn adlewyrchu dull rhagweithiol o ymwreiddio arferion cyfartal wrth benodi staff. Mae datblygiad staff wedi ei alinio mewn ffordd ystyrlon â fframwaith academaidd Prifysgol Caerdydd a chylch y broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol flynyddol. Dyfarnwyd statws Cymrawd Advance HE i fwy na 1,000 o'r staff o ganlyniad i'w cyfranogiad yn y rhaglen gymrodoriaeth, a chadarnhaodd y staff bod cymryd rhan yn y rhaglen wedi newid eu harferion addysgu'n sylweddol a hybu eu hyder proffesiynol. Lledaenir arferion da drwy nifer o sianelau sy'n eu hatgyfnerthu ei gilydd, ac mae'r Gynhadledd Dysgu ac Addysgu flynyddol, cymorth pwrpasol yr Academi DA, y Canllaw Arfer Da Dysgu Canolog a Phecyn Cymorth Datblygiad Addysgol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu'n cynrychioli dull amlhaenog sy'n gynyddol systematig o sicrhau bod arferion effeithiol yn cael eu rhannu a'u hymwreiddio ar draws yr Ysgolion.

70 Nododd y tîm adolygu fod cysondeb profiad y myfyrwyr yn dal i fod yn amrywiol rhwng yr Ysgolion, a bod hwn yn **faes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yn y Brifysgol. Roedd tystiolaeth a gafwyd mewn nifer o'r cyfarfodydd adolygu'n dangos anghydbwysedd rhwng ysgolion o ran effeithiolrwydd y dulliau o gasglu barn y myfyrwyr, amlder ac ansawdd cyfarfodydd Panelau Myfyrwyr-Staff, effeithiolrwydd yr ymgyrch i gau'r ddolen adborth â'r myfyrwyr, a manylder yr ymgysylltiad â'r fframweithiau gwella, gan ddangos hefyd mewn rhai achosion fod canlyniadau'n dibynnu ar agwedd aelodau unigol o'r staff yn hytrach na bodolaeth prosesau sefydliadol sefydledig. Nododd y tîm adolygu mai un o nodau'r broses sydd ar y gweill o ailstrwythuro'r Brifysgol i 16 Ysgol mewn tri Choleg o 2026-27 ymlaen oedd mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn drwy gryfhau trefniadau llywodraethu a goruchwylio ar lefel y colegau (gwelwch hefyd baragraffau 87 a 95).

## 5. Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

71 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol i reoli a gwella ei safonau a'i hansawdd academaidd. Bu'r tîm adolygu'n ystyried ystod o ddogfennau sy'n adlewyrchu'r newidiadau a'r gwelliannau a gafwyd yng ngweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer rheoli safonau academaidd ac ansawdd ers yr Adolygiad GA yn 2020. Mae'r newidiadau hyn wedi cynnwys cryfhau'r oruchwyliaeth ar ansawdd a safonau er mwyn gyrru datblygiad parhaus, ac integreiddio'r Tîm Ansawdd a Safonau yn yr Academi DA er mwyn hwyluso dull mwy cydlynol o sicrhau datblygiad academaidd. Hefyd, cafwyd gwelliannau yn y prosesau o gymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni i sicrhau aliniad parhaus â meincnodau a safonau a gydnabyddir gan y sector, ac i sefydlu cyd-ddealltwriaeth o ddisgwyliadau newydd y sefydliad o ran llunio rhaglenni trwy arweiniad a chymorth wedi'i dargedu. Rhoddwyd esiamplau o archwiliadau mewnol y Brifysgol a'i phrosesau rheoli risgiau, ac mae dadansoddiadau thematig o adroddiadau arholwyr allanol wedi arwain at ddiwygio'r Polisi Marcio a Chymedroli a'r Polisi Adborth Academaidd a luniwyd o ganlyniad i brosiect 'Meddwl o'r newydd am ddulliau asesu'. Siaradodd y staff a'r myfyrwyr am fuddion y newidiadau a wnaethpwyd.

### Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau ei ddarpariaeth

72 Mae'r Brifysgol wedi dangos ymrwymiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gryfhau ei threfniadau ar gyfer rheoli ansawdd a safonau academaidd ers yr Adolygiad GA a gafwyd yn 2020. Mae'r penderfyniad i integreiddio'r Tîm Ansawdd a Safonau o fewn yr Academi Dysgu ac Addysgu, ochr yn ochr â chreu swydd benodol y Deon Ansawdd Academaidd, yn adlewyrchu symudiad strategol oddi wrth sicrwydd mewn perthynas â chydymffurfiad i fodel lle trinnir rheoli ansawdd a sicrhau gwelliant fel swyddogaethau cyflenwol. Mae'r symudiad hwn yn creu'r amodau sefydliadol i brosesau rheoli ansawdd yrru gwelliant go iawn yn hytrach na dim ond cadarnhau bod digon o gydymffurfiad. Mae'r drefn systematig ar gyfer adolygu a diweddaru polisïau academaidd craidd hefyd yn sicrhau bod y fframwaith rheoliadol a threfniadol yn dal i fod yn addas i'w ddiben.

73 Yn 2022/23, cyflwynwyd proses ail-ddilysu ddau gam, ac mae'r Is-bwyllgor Cymeradwyo ac Ailddilysu Rhaglenni (Is-bwyllgor CARh) wedi craffu ar y datblygiad sylweddol hwn er mwyn sicrhau bod y broses newydd yn cyfateb â'r fframweithiau credydau a chymwysterau perthnasol, y meincnodau ar gyfer meysydd astudio penodol, a disgwyliadau sefydliadol y Brifysgol ei hun o ran llunio rhaglenni, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (Pwyllgor SAA) ym mis Chwefror 2023. Trwy sefydlu'r Gwasanaeth Datblygu Addysg i gefnogi'r staff drwy gydol y broses hon, cryfhawyd cysondeb prosesau llunio rhaglenni ymhellach. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn cysylltu'r gwaith sicrhau ansawdd â'r gwaith gwella: ochr yn ochr â'r Disgwyliadau Sefydliadol o ran llunio rhaglenni sy'n darparu mecanwaith sicrhau ansawdd i wneud yn siŵr bod rhaglenni'n bodloni'r disgwyliadau sylfaenol yn gyson mewn perthynas â strwythur, lefelau, credydau, a phatrymau asesiadau, mae'r Gwasanaeth Datblygu Addysg yn darparu mecanwaith cefnogi gwelliant sy'n gweithredu o fewn y fframwaith ansawdd.

74 Un o'r gwelliannau mwyaf sylweddol mewn trefnau llywodraethu yw'r esblygiad o gylchoedd Adolygu a Gwella Blynyddol i broses adolygu a gwella barhaus. Trwy ymwreiddio gweithgareddau adolygu yn y cylch blynyddol o bwyllgorau a'u cysylltu â chynlluniau 'Gwelliant ac Effeithiolrwydd' yr Ysgolion, mae'r Brifysgol wedi symud o broses adrodd ôl-syllol i ddull mwy dynamig a mwy ymatebol, gyda'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi sicrwydd beirniadol a dadansoddol i'r Senedd a'r Cyngor.

75 O ganlyniad i brosesau adolygu ac archwilio mewnol y Brifysgol, canfuwyd bylchau sylweddol mewn gweithdrefnau. Yn yr archwiliad o arholiadau wedi'u hailsefyll yn ystod y flwyddyn academaidd (2021-22) a'r archwiliad o'r broses o hysbysu am ganlyniadau arholiadau (2022-23), cafwyd sicrwydd cyfyngedig a chanfuwyd gwendidau yng nghywirdeb y prosesau casglu data

a marcio. Mae'r sefydliad wedi cymryd camau gweithredu cymesur mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, gan gynnwys creu cofrestr o arholiadau wedi'u hailsefyll, diweddaru'r system cofnodion myfyrwyr, a chomisiynu Prosiect Prosesu Marciau. Bydd proses gloi'r prosiect hwn yn 2026 yn cynnwys gwerthuso pa mor gynaliadwy yw'r gwelliannau a gyflawnir yn dilyn aildrefnu staff y gwasanaethau proffesiynol mewn timau addysg.

76 Canfu'r tîm adolygu fod dadansoddiad thematig o adroddiadau arholwyr allanol wedi darparu tystiolaeth ar gyfer datblygu polisïau penodol, yn fwyaf nodedig y prosiect 'Meddwl o'r newydd am ddulliau asesu' a ddiwygiodd y Polisi Marcio a Chymedroli a'r Polisi Adborth Academaidd yn 2023/24. Mae hyn yn dangos cysylltiad cryf ac uniongyrchol rhwng prosesau craffu allanol a gwaith y sefydliad o ddiwygio ei bolisïau. Disgwylir i swydd arfaethedig Cynghorydd Allanol Safonau Academaidd ddarparu goruchwyliaeth ychwanegol ar lefel sefydliadol i gyflenwi'r gwaith arholi allanol ar lefel y rhaglenni.

77 Mae cyfranogiad y myfyrwyr mewn prosesau ansawdd wedi cryfhau hefyd, ac mae tystiolaeth yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2021-22 sy'n dangos sgorau isel yn yr ACF ar gyfer 'llais y myfyrwyr', ac mae'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol wedi dogfennu gwelliannau mesuradwy a gafwyd yn dilyn gweithredu'r Fframwaith Llais Myfyrwyr, gwell system o Banelau Myfyrwyr-Staff a'r ymgyrch 'Cau'r Ddolen Adborth'. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod bylchau dyfarnu'n parhau i amrywio rhwng rhai carfannau o fyfyrwyr, a bod hwn yn faes sydd angen sylw parhaus.

78 Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y Brifysgol wedi cyflawni datblygiad gwirioneddol mewn rheoli ansawdd a safonau, ar sail trefnau llywodraethu datblygedig, dull mwy integredig o sicrhau gwelliant, a pharodrwydd i gymryd camau gweithredu pendant mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliadau.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli safonau ei ddarpariaeth yn effeithiol

79 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu fframwaith llywodraethu clir ar gyfer cadarnhau bod ei phrosesau o reoli safonau academaidd yn parhau i fod yn effeithiol. Mae cyfansoddiadau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau'n dangos bod y cyfrifoldeb am safonau wedi ei ddosbarthu drwy gyfres drefnus o gyrff sefydliadol, sy'n cynnwys y Pwyllgor SAA, yr Is-bwyllgor CARh a'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd, a bod y Pwyllgor SAA yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd a'r Cyngor, drwy'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol. Mae hyn yn diffinio llwybr trefnus ar gyfer prosesau sicrhau ansawdd sefydliadol ac yn galluogi i broblemau yn ymwneud â safonau dderbyn ystyriaeth drwy drefnau llywodraethu ffurfiol yn hytrach na thrwy brosesau lleol sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain. Mae'r staff yn deall y trefniadau hyn, yn rhan o'r cylch sicrhau ansawdd arferol, ac mae problemau sy'n ymwneud â safonau'n cael eu cyfeirio i fyny ar lwybrau sefydledig drwy'r pwyllgorau, gyda goruchwyliaeth ganolog yn ei lle i sicrhau bod disgwyliadau sefydliadol yn cael eu gweithredu'n gyson.

80 Mae'r Adroddiadau Ansawdd Blynyddol ar gyfer y blynyddoedd academaidd o 2021-22 i 2024-25 yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut mae'r prosesau ansawdd hyn yn gweithio'n ymarferol, er mwyn cadarnhau bod y prosesau rheoli safonau'n parhau i fod yn effeithiol. Ar draws y cylch adrodd, mae'r adroddiadau'n tynnu tystiolaeth at ei gilydd ynglŷn â safonau academaidd, safonau graddau, sicrwydd gan arholwyr allanol a chadarnhad gan fyrddau arholi, uniondeb academaidd, achosion myfyrwyr a phroblemau thematig sy'n gofyn cynllunio camau gweithredu neu fireinio prosesau. Yn benodol, mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn nodi bod y Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd wedi derbyn sicrwydd gan fyrddau arholi ac arholwyr allanol, cyn iddo ddyfarnu graddau, nad oedd unrhyw bryderon ynglŷn â safonau academaidd. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod hwn yn bwynt sicrwydd arwyddocaol am ei fod yn dangos mecanwaith sefydliadol ffurfiol ar gyfer profi a chadarnhau safonau cyn dyfarnu graddau. Atgyfnerthwyd y farn hon yn y trafodaethau a gynhaliwyd gan y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad,

lle'r oedd y staff wedi esbonio sut mae cadarnhad gan fyrddau arholi a sicrwydd gan arholwyr allanol yn cael eu cyfuno a'u hadrodd drwy strwythurau llywodraethu yn hytrach na chael eu trin fel cynnyrch gweinyddol yn unig.

81 Hefyd, mae tystiolaeth yn ymwneud â deilliannau dysgu'r myfyrwyr yn cefnogi effeithiolrwydd parhaus y prosesau rheoli safonau. Mae'r Datganiad o Safonau Graddau ar gyfer 2024 yn esbonio sut mae dosbarthiadau a safonau graddau'n cael eu monitro drwy'r system reoli ansawdd academaidd, gan ddefnyddio data cymharol a thystiolaeth fewnol i gefnogi tegwch, tryloywder ac adolygiad parhaus. Yn fwy cyffredinol, mae data'r Brifysgol am gynnydd a dyfarniadau ei myfyrwyr ac adroddiadau sefydliadol cysylltiedig yn darparu sylfaen i adnabod patrymau a materion a allai achosi pryder, ac mae'r gwaith o wella prosesau penodol, gan gynnwys y Prosiect Prosesu Marciau, yn dangos bod y Brifysgol wedi bod yn barod i adnabod risgiau gweithredol ac ymateb iddynt drwy ymyriadau penodol sydd wedi eu llunio i gryfhau dibynadwyedd a chysondeb. Mae'r sefydliad yn dadansoddi canlyniadau a phatrymau asesiadau i hysbysu trafodaethau ar lefelau lleol a chanolog am risgiau, a chyflwynwyd newidiadau i'r prosesau lle gwelwyd gwendidau mewn dibynadwyedd gweithrediadol. Ar y cyfan, mae hyn yn rhoi'r argraff nad yw dull y Brifysgol o reoli safonau'n aros yr un fath, ond bod ei dull yn cael ei adolygu'n barhaus drwy gyfuniad o weithgareddau llywodraethu, craffu ar ddata a gwella prosesau.

82 Er hynny, canfu'r tîm adolygu, ar sail y dystiolaeth ddogfennol a'r cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad adolygu, nad yw'r prosesau rheoli ansawdd sy'n ymwneud â safonau'n cael eu profi a'u gweithredu'n gwbl gyson ar lefel yr ysgolion. Roedd tystiolaeth a gafwyd yn y cyfarfodydd yn dangos rhywfaint o amrywiaeth rhwng yr Ysgolion yn effeithiolrwydd eu prosesau lleol ac yng nghyrhaeddiad eu gweithgareddau monitro. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn rhoi unrhyw reswm i'r tîm adolygu amau gallu'r sefydliad i reoli safonau'n effeithiol. Yn hytrach, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod prosesau rheoli ansawdd y Brifysgol yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer cadarnhau bod ei phrosesau rheoli safonau'n parhau i fod yn effeithiol, bod ganddi fecanweithiau sicrhau sefydliadol cadarn, a bod tystiolaeth gadarnhaol ar gael i ddangos bod y mecanweithiau hyn yn cael eu defnyddio i fonitro risgiau, cadarnhau safonau a mireinio prosesau dros amser.

83 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol, a bod ganddi arferion effeithiol ar gyfer rheoli ansawdd academaidd a safonau academaidd.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ansawdd ei ddarpariaeth yn effeithiol

84 Mae'r Brifysgol wedi sefydlu fframwaith trefnus o brosesau sicrhau ansawdd sydd wedi eu llunio i gadarnhau bod ei dull o reoli ansawdd academaidd yn parhau i fod yn effeithiol. Mae'r prosesau hyn wedi eu hymwreiddio mewn trefniadau llywodraethu ffurfiol sy'n rhoi sicrwydd drwy fonitro a gwerthuso'n gylchol, a chyfeirio problemau i fyny i lefelau priodol o fewn y sefydliad. Darperir goruchwyliaeth sefydliadol drwy strwythur pwyllgorau lle mae gan y Pwyllgor SAA, dan gadeiryddiaeth y Deon Ansawdd Academaidd, y prif gyfrifoldeb am faterion sicrhau ansawdd, fel is-bwyllgor i'r Senedd a'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr (Pwyllgor APM). Mae'r Pwyllgor SAA yn cynghori'r Pwyllgor APM am faterion yn ymwneud â gwelliant sy'n dod i'r amlwg drwy'r fframwaith ansawdd academaidd, ond gallai'r adrodd am faterion sicrhau ansawdd symud ymlaen yn uniongyrchol i'r Senedd lle bo'n briodol, ac mae gan y Senedd a'r Cyngor yr atebolrwydd cyffredinol. Mae'r Is-bwyllgor CARh yn craffu'n ffurfiol ar ddyluniad rhaglenni ac asesiadau er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau sefydliadol o ran ansawdd yn cael eu bodloni'n gyson wrth gymeradwyo ac ail-gymeradwyo rhaglenni. Nododd y tîm adolygu fod pwyntiau cyfeirio allanol, yn cynnwys Cod Ansawdd y DU a'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr gan Medr, wedi eu hymwreiddio yn y prosesau dilysu a chymeradwyo, a bod y Brifysgol wedi creu swydd arweiniol sefydliadol glir, sef y Deon Ansawdd Academaidd, sy'n

gyfrifol am sicrhau bod prosesau rheoli ansawdd yn gweithio mewn ffordd gyson ar draws y Brifysgol gyfan.

85 Mae'r Brifysgol yn gweithredu fframwaith monitro blynyddol cynhwysfawr sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, yn cynnwys canlyniadau'r ACF, gwerthusiadau o fodiwlau, adborth gan y myfyrwyr, data am gynnydd a dyfarniadau'r myfyrwyr, a gwaith gwerthuso dadansoddol ar lefelau'r rhaglenni a'r ysgolion. Un o'r datblygiadau a ystyriwyd yn arbennig o bwysig gan y tîm adolygu oedd symudiad y Brifysgol o feincnodi ei pherfformiad yn fewnol yn erbyn ei data hanesyddol ei hun, i gymharu â meincnodau allanol fesul maes astudio yn erbyn y sector ehangach, sy'n safon cymharu mwy trwyadl ac allsyllol. Ar gyfer ei darpariaeth ôl-raddedig a addysgir, mae'r Brifysgol wedi gosod targed mesuradwy clir, lle disgwylir i bob maes thematig gyflawni cyfradd bositifrwydd o 85% yn Arolwg Profiad Myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir y Brifysgol, ar lefelau'r sefydliad a'r colegau, a diffiniwyd targedau'n glir ar gyfer yr Ysgolion y mae eu perfformiad yn cael ei asesu yn eu herbyn. Mae canlyniadau'r ACF yn sbarduno ymateb sefydliadol trefnus ar lefelau'r ysgolion a'r colegau, a rhoddir cynlluniau gweithredu ar waith os nodir unrhyw bryderon, gan adrodd am y cynlluniau i Medr wedyn. Dangosodd y Brifysgol effeithiolrwydd y broses hon wrth ei gweithredu gan ddefnyddio'r rhaglen addysg feddygol yng Ngogledd Cymru fel esiampl, lle arweiniodd gostyngiad ym moddhad y myfyrwyr a welwyd drwy'r ACF a'r gwerthusiadau o fodiwlau at gynllun gweithredu penodol, y gwnaed gwaith dilynol arno ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan beri gwelliant ym moddhad y myfyrwyr.

86 Mae prosesau'r Brifysgol ar gyfer cymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni'n fecanwaith ychwanegol ar gyfer craffu ar ansawdd y ddarpariaeth a'i gadarnhau'n gylchol. Mae pob rhaglen yn atebol i gael ei hail-ddilysu drwy broses gyfannol o archwilio'r ystod gyfan o asesiadau mewn maes astudio, ac ni ddilysir unrhyw raglen heb fewnbwn gan fyfyrwyr, ac mae'r disgwyliadau sefydliadol yn nodi normau llunio asesiadau, gan gynnwys lleihad yn y baich ac ym maint y gwaith asesu. Mae gan bob ysgol arweinwyr asesiadau ac adborth, a gofynnir i bob Ysgol lunio strategaeth adborth academaidd a'i diweddaru'n flynyddol, gan ddarparu sylfaen sefydliadol gyson i asesu ansawdd yr asesiadau sy'n cael ei fonitro drwy'r cylch adolygu a gwella. Pan fydd pryderon yn codi drwy gyfrwng y broses gwyno, mae'r Brifysgol wedi sefydlu system Achosion Myfyrwyr i ffurfioli'r ffordd y rheolir gwaith achos. Cefnogir hyn gan drefn frysbennu a, lle bo'n ofynnol, gymorth allanol i ymdopi â chyfnodau o lwyth gwaith uchel, gan ddangos bod yma ddull trefnus ac ymatebol o ddarganfod problemau yn ymwneud ag ansawdd a mynd i'r afael â nhw wrth iddyn nhw godi.

87 Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y fframwaith cyffredinol o brosesau ansawdd wedi ei drefnu'n dda a'i reoli'n briodol, a'i fod yn gynyddol effeithiol o ran cysylltu gweithgareddau sicrhau ansawdd â phrosesau penderfynu ac ymyriadau wedi'u targedu ar lefel sefydliadol. Roedd tystiolaeth a gafwyd yn y cyfarfodydd adolygu'n dangos bod y ffordd y mae prosesau rheoli ansawdd yn cael eu gweithredu ar lefel yr ysgolion yn dal i fod yn anghyson, a bod anghydbwysedd yn bodoli rhwng ysgolion o ran effeithiolrwydd rhai dulliau megis yr ymgyrch i gau'r ddolen adborth â'r myfyrwyr, ac yn amlder cyfarfodydd Panelau Myfyrwyr-Staff, a chyrhaeddiad y gweithgareddau monitro blynyddol. Cydnabu'r Brifysgol fod yr her hon wedi bodoli ers amser a nododd mai un o nodau'r broses sydd ar y gweill o ailstrwythuro'r sefydliad i 16 Ysgol mewn tri Choleg o 2026-27 ymlaen oedd mynd i'r afael â'r anghysondeb yn y profiad ar draws y sefydliad drwy bennu'r cyfrifoldebau llywodraethu'n eglur a chryfhau goruchwyliaeth ar lefel y colegau.

## Y ffordd y mae prosesau ansawdd y darparwr yn cyfrannu at sicrhau bod profiad dysgu ei fyfyrwyr yn cael ei wella a'i gyfoethogi

88 Canfu'r tîm adolygu fod prosesau rheoli ansawdd y Brifysgol yn cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o wella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr, oherwydd eu bod wedi eu cysylltu nid yn unig â phrosesau goruchwylio a sicrhau ansawdd, ond hefyd â chynllunio camau gweithredu,

gweithgareddau gwella a dilyniant ar lefel sefydliadol. Mae'r dystiolaeth ddogfennol yn dangos bod y Brifysgol wedi sefydlu cylch adrodd blynyddol lle defnyddir Adroddiadau Ansawdd Blynyddol ac Adroddiadau Gwelliant Blynyddol i adnabod themâu, dod â risgiau i'r amlwg, monitro'r datblygiad a hysbysu camau gweithredu ar lefel sefydliadol. Ystyrir yr adroddiadau hyn drwy lwybrau llywodraethu ffurfiol, sy'n cynnwys y Pwyllgor SAA, y Pwyllgor APM, y Senedd a'r Cyngor, ac mae hyn yn golygu bod gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd yn gallu llywio penderfyniadau ar lefel sefydliadol yn hytrach na pharhau ar lefel monitro lleol. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod hyn yn gryfder pwysig oherwydd mae'n cysylltu prosesau rheoli ansawdd yn uniongyrchol â'r gwaith o gynllunio a blaenoriaethu gwelliant ar lefel sefydliadol.

89 Mae tystiolaeth hefyd i ddangos yn glir fod y Brifysgol yn defnyddio ei phrosesau rheoli ansawdd i adnabod meysydd lle mae angen gwella profiad y myfyrwyr, ac i gefnogi'r sefydliad wrth lunio ymatebion pwrpasol. Mae dulliau adrodd a gwerthuso trefnus i gefnogi'r blaenoriaethau gwelliant yn ymwneud â datblygu'r staff academaidd, datblygu'r cwricwla, yr amgylchedd dysgu digidol, a meddwl o'r newydd am ddulliau asesu. Mae Adroddiadau Gwelliant Blynyddol ac astudiaethau achos o welliannau'n fecanwaith ar gyfer adolygu datblygiad, effaith a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mewn cyfarfodydd, disgrifiodd y staff sut mae gwybodaeth am ansawdd a gwelliant wedi ei thriongli gydag adborth gan y myfyrwyr, data am berfformiad a phrofiad lleol i hysbysu ymyriadau, a sut mae hyn wedi arwain at gymorth penodol i Ysgolion mewn meysydd megis llunio cwricwla, asesu a rhoi adborth, ac arferion dysgu digidol. Clywodd y tîm adolygu nad yw'r prosesau hyn yn cael eu hystyried yn wahanol i weithgareddau gwella, yn hytrach fe'u hystyrir yn gyfryngau ar gyfer mireinio blaenoriaethau, targedu cymorth a monitro datblygiad dros amser. Mae hyn yn rhoi sylfaen gryfach i'r Brifysgol i sicrhau bod gweithgareddau gwella'n cael eu hysbysu gan dystiolaeth a'u cydlynu ar lefel y sefydliad.

90 Mae'r Academi DA yn rhan arbennig o bwysig o'r ffordd y mae prosesau rheoli ansawdd yn cyfrannu at wella arferion. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod problemau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg drwy brosesau monitro sefydliadol yn cael eu trosi'n weithgareddau datblygu, cymorth pwrpasol yr Ysgolion a mentrau ledled y sefydliad cyfan, drwy waith yr Academi DA. Dywedodd y staff academaidd fod yr Academi DA yn ymatebol ac yn rhagweithiol, a'i bod yn rhoi ystyriaeth i dystiolaeth sefydliadol ac anghenion lleol wrth lunio ymyriadau sy'n gwella'r arferion asesu a dyluniad y dysgu ac yn sicrhau gwell cynhwysiant. Felly, roedd y tîm adolygu o'r farn bod gan y Brifysgol gyfrwng effeithiol ar gyfer trosi gwybodaeth am ansawdd yn weithgareddau gwella ymarferol, ac mae hyn yn cefnogi'n gryf y ganmoliaeth i effeithiolrwydd yr Academi DA fel cyfrwng sefydliadol ar gyfer gwella'r dysgu a'r addysgu.

91 Hefyd, rhoddodd y myfyrwyr dystiolaeth i ddangos bod prosesau ansawdd yn gallu cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith gwella a chyfoethogi, er bod rhywfaint o amrywiaeth yn ei weledd a'i gysondeb. Clywodd y tîm adolygu esiamplau o newidiadau a wnaethpwyd mewn ymateb i adborth gan y myfyrwyr, gan gynnwys gwelliannau yn y ffordd y trefnir y dysgu digidol, agweddau o arferion asesu a rhoi adborth, a chyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan drwy Bartneriaid Profiad Myfyrwyr a'r fenter 'Caerdydd 100'. Fodd bynnag, roedd myfyrwyr wedi nodi hefyd bod yr ymgyrch i gau'r ddolen adborth ac eglurder y dulliau o gasglu barn y myfyrwyr yn fwy effeithiol mewn rhai adrannau o'r Brifysgol nag eraill. Daeth y tîm i'r casgliad bod prosesau rheoli ansawdd y Brifysgol yn cyfrannu'n effeithiol at y gwaith o wella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr, ond nad yw pob un o rannau'r Brifysgol wedi elwa i'r eithaf nac i'r un graddau o'r prosesau hyn eto. Mae'r feirniadaeth hon yn cyd-fynd â'r argymhelliad i gryfhau'r dulliau o gasglu barn y myfyrwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn deall diben y gynrychiolaeth yn glir, a bod y gynrychiolaeth yn hwyluso diwylliant 'Prifysgol gyfunol' mwy cyson.

92 Roedd y tîm adolygu o'r farn bod prosesau rheoli ansawdd y Brifysgol yn gynyddol effeithiol o ran cysylltu prosesau sicrhau ansawdd, gweithgareddau gwella a gwaith penderfynu sefydliadol â'i gilydd. Maent yn darparu llwybrau trefnus ar gyfer adnabod tystiolaeth sy'n dangos problemau ynglŷn â phrofiad y myfyrwyr, cyfeirio problemau i fyny i lefelau uwch a chymryd camau i fynd i'r afael â nhw, ac maent wedi cefnogi rhaglen sylweddol o waith gwella sydd â

chyrhaeddiad amlwg drwy'r sefydliad cyfan. Er bod rhywfaint o anghysondeb o hyd yn y ffordd y profir gwelliannau ar lefelau'r ysgolion a'r rhaglenni, mae gan y Brifysgol brosesau rheoli ansawdd effeithiol sy'n cyfrannu'n ystyrlon at y gwaith parhaus o wella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd

93 Mae'r tîm adolygu'n hyderus bod gan y Brifysgol drefniadau effeithiol wedi eu rheoli'n dda i sicrhau safonau ac ansawdd academaidd. Mae'r fframwaith llywodraethu wedi ei disgrifio'n glir, ac mae'r cyfrifoldebau penodol wedi eu dosbarthu rhwng y Pwyllgor SAA, yr Is-bwyllgor CARh a'r Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd, y mae pob un ohonynt yn gweithredu yn unol â chylch gwaith sy'n sefydlu llwybr atebolrwydd ffurfiol i'r Senedd a'r Cyngor. Yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol yw prif fecanwaith y sefydliad ar gyfer cadarnhau'r prosesau rheoli safonau'n gylchol, gan dynnu at ei gilydd sicrwydd gan arholwyr allanol, cadarnhad gan fyrddau arholi cyn dyfarnu graddau, monitro safonau graddau, adroddiadau am uniondeb academaidd, a dadansoddiad thematig i hysbysu'r gwaith o gynllunio camau gweithredu a gwella prosesau.
Roedd y tîm adolygu o'r farn bod hyn yn darparu sylfaen gydlynol sydd wedi ei hymwreiddio'n ffurfiol ar gyfer goruchwyliaeth sefydliadol ar ansawdd a safonau academaidd.

94 Mae tystiolaeth bellach o effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn y ffordd y mae prosesau rheoli ansawdd yn cysylltu gweithgareddau sicrhau ansawdd â gwaith penderfynu a chynllunio camau gwella penodol ar lefel sefydliadol. Mae symudiad y Brifysgol i gymharu meysydd astudio â meincnodau allanol, cyflwyniad targedau mesuradwy penodol ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig a addysgir, a'r defnydd a wneir o Adroddiadau Gwelliant Blynyddol ochr yn ochr ag Adroddiadau Ansawdd Blynyddol fel dogfennau cysylltiedig, yn creu seilwaith rheoli ansawdd sy'n gallu hysbysu blaenoriaethu strategol a thargedu adnoddau sefydliadol. Mae cyflwyniad y Polisi Marcio a Chymedroli, y prosiect ar gyfer gwella'r gwaith o brosesu marciau, a'r ymateb trefnus i sgorau sydd wedi dirywio yn yr ACF ar gyfer 'boddhad' drwy lunio cynlluniau gweithredu ar lefel yr ysgolion, gan adrodd am eu canlyniadau i'r corff rheoleiddio, yn dangos prifysgol sy'n defnyddio ei phrosesau ansawdd i adnabod risgiau gweithredol ac yn mynd i'r afael â nhw drwy ymyriadau penodol ar sail tystiolaeth. Mae'r myfyrwyr wedi eu cynrychioli'n ffurfiol o fewn y system hon ar bob lefel yn y strwythur llywodraethu, ac mae hyn yn darparu rhywfaint o oruchwyliaeth gan y myfyrwyr ar brosesau ansawdd, sy'n cyflenwi'r mecanweithiau proffesiynol ar gyfer sicrhau ansawdd.

95 Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu fod anghysondeb o hyd ym mhrofiad y myfyrwyr o'r prosesau ansawdd a'r ffordd y gweithredir y prosesau hyn ar lefel yr ysgolion, a bod hwn yn faes **sydd o dan ddatblygiad parhaus** yng nghyd-destun cryfhau'r diwylliant 'Prifysgol gyfunol'. Roedd tystiolaeth a gafwyd mewn nifer o'r cyfarfodydd adolygu'n dangos anghydbwysedd rhwng ysgolion o ran effeithiolrwydd yr ymgyrch i gau'r ddolen adborth â'r myfyrwyr, a manylder yr ymgysylltiad â'r fframweithiau gwella ansawdd. Cydnabu'r Brifysgol fod yr her hon wedi bodoli ers amser a nododd mai un o nodau'r broses sydd ar y gweill o ailstrwythuro'r sefydliad i 16 Ysgol mewn tri Choleg o 2026-27 ymlaen, oedd mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn drwy bennu'r cyfrifoldebau llywodraethu'n eglur a chryfhau goruchwyliaeth ar lefel y colegau. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y trefniadau hyn ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau academaidd yn gweithio'n effeithiol ar lefel sefydliadol, gan hefyd nodi bod sicrhau bod pob rhan o'r Brifysgol yn elwa i'r eithaf nac i'r un graddau o'r trefniadau hynny'n parhau i fod yn flaenoriaeth.

# 6. Darpariaeth gydweithredol

## Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol (gan gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith) ac unrhyw gynlluniau i'w newid

96 Ar hyn o bryd, mae portffolio'r Brifysgol o ddarpariaeth a addysgir yn gydweithredol yn adlewyrchu cyfnod o drawsnewidiad strategol, ac un o'i nodweddion yw symudiad oddi wrth drefniadau o'r gorffennol tuag at rwydwaith addysg drawswladol cilyddol sydd â mwy o ogwydd fyd-eang. Ymysg y partneriaethau y mae 'Cofrestr Partneriaethau Addysg a Addysgir 2025/26' yn eu nodi, mae partneriaeth weithredol lle dyfernir dyfarniad dwbl (rhaglen BA sy'n arwain at radd ddeuol mewn Tsieinëeg Fodern, ar y cyd â Phrifysgol Normal Beijing), dwy bartneriaeth masnachfraint sy'n dod i ben (rhaglenni BTh a MTh mewn Diwinyddiaeth a ddarperir ar y cyd â Choleg y Bedyddwyr Caerdydd, a rhaglen MBBCh Gogledd Cymru ar y cyd â Phrifysgol Bangor) sydd o dan drefniadau 'addysgu allan', yn ogystal â phartneriaeth masnachfraint arall sydd wrthi'n cael ei hadolygu (Prentisiaeth Gradd BEng mewn Peirianneg Integredig, ar y cyd â Choleg Gŵyr Abertawe). Fodd bynnag, mae tystiolaeth i'w chael sy'n dangos fframwaith cadarn ar gyfer rheoli'r maint a'r cymhlethdod hyn. Mae gweithrediad y Polisi Partneriaethau Addysg cyfunol yn cynrychioli gwelliant llywodraethu sylweddol, gan integreiddio dysgu yn y gweithle ac astudio dramor yn effeithiol i mewn i strwythur rheoli risgiau cyfunol. Mae'r gofrestr o bartneriaethau ar gyfer darpariaeth a addysgir yn darparu sylfaen ar gyfer deall maint, lleoliad a math y ddarpariaeth gydweithredol, yn cynnwys dyfarniadau dwbl a threfniadau ar y cyd.

97 Yn ogystal, mae strategaeth y Brifysgol yn cynnwys dyhead i sefydlu rhwydwaith o bartneriaethau cilyddol datblygedig ar gyfer addysg drawswladol. Mae datblygiadau'n dod i'r amlwg sydd â blaenoriaeth uchel, megis campws Prifysgol Caerdydd yn Kazakhstan, Athrofa Rheolaeth Singapore a Phrifysgol Tianjin, ac mae hyn yn dangos newid uchelgeisiol yng nghwmpas y sefydliad. Mae'r fenter yn Kazakhstan yn dangos categori soffistigedig o ddarpariaeth sy'n gofyn, ac sy'n derbyn, ffocws gwerthuso trwyadl ar sicrhau aliniad â'r rheoliadau a phrofiadau cyfartal i'r myfyrwyr. O ganlyniad, er bod y nifer o bartneriaethau sydd wrthi'n gweithio yn eithaf isel, mae'r cyfeiriad y mae'r Brifysgol yn symud ynddo'n awgrymu ei bod hi'n ehangu ei phortffolio o ddarpariaeth gydweithredol mewn ffordd bwrpasol sydd wedi ei rheoli'n dda.

## Y datblygiadau a gafwyd yn y dulliau y mae'r darparwr yn eu defnyddio i reoli ansawdd a safonau

98 Mae Polisi Partneriaethau Addysg y Brifysgol wedi ei lunio o amgylch tair egwyddor arweiniol sy'n adlewyrchu'r angen am ddylunio a darparu rhaglenni gradd i gyfateb â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol a bodloni gofynion y Disgwyliadau Sefydliadol o ran llunio raglenni; lle mae'r Brifysgol yn sefydliad dyfarnu, mae'n gyfrifol am 'reoli' a 'bod yn berchen ar' y rhaglenni, ac mae fframwaith clir ar gyfer monitro, adolygu a rheoli risgiau. Clywodd y tîm adolygu fod yr Is-bwyllgor Partneriaethau Addysg, o dan awdurdod dirprwyedig gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd, yn gyfrifol am adolygu ansawdd a safonau'r gweithgareddau partneriaeth yn unol â'r polisi. Mae tystiolaeth yn yr adolygiad ffurfiol a gafwyd yn 2023-24 o'r bartneriaeth â Phrifysgol Normal Beijing sy'n dangos prosesau sicrhau ansawdd cadarn. Sicrhaodd hyn fod y safonau academaidd yn ddiogel cyn ail gadarnhau a gweithredu prosesau monitro gwell ar gyfer gwaith 'addysgu allan' y rhaglenni Diwinyddiaeth a Meddygaeth er mwyn diogelu profiad y myfyrwyr wrth i'r rhaglenni gael eu cau. Mae'r prosesau diwydrwydd dyladwy ar gyfer partneriaethau newydd yn cadarnhau ymhellach fod y mentrau hyn yn cael eu goruchwylio'n briodol, yng nghyd-destun fframwaith rheoleiddio sydd wedi ei ddiffinio'n glir, er mwyn sicrhau bod eu safonau'n cyfateb â safonau'r campws cartref.

99 I ategu'r dulliau diogelu hyn, mae gweithgareddau gwella pwrpasol yn amlwg yn y gwaith o adnewyddu cwricwlwm y bartneriaeth â Phrifysgol Normal Beijing yn dilyn adolygiad, a hefyd drosglwyddiad y Flwyddyn Astudio Dramor i fodel 'pasio/methu', sy'n symleiddio'r broses o gydnabod credydau mewn ffordd effeithiol. Yn ogystal, mae mabwysiadu system reoli lleoliadau gwaith wedi gwella eglurder a chysondeb sefydliadol. Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn amlinellu fframwaith polisi sy'n datblygu a hefyd gyflwyniad meysydd gweithredu newydd. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn yn dangos dull gweithredol, esblygol o gynnal ansawdd a safonau holl ddarpariaeth gydweithredol y Brifysgol.

## Y defnydd a wneir o brosesau ansawdd i gadarnhau bod y darparwr yn parhau i reoli ei ddarpariaeth gydweithredol yn effeithiol

100 Mae fframwaith y Brifysgol ar gyfer rheoli ansawdd darpariaeth gydweithredol yn dangos ffordd soffistigedig o integreiddio dulliau o sicrhau safonau sylfaenol a dulliau rhagweithiol o wella ansawdd. Mae'r mecanweithiau craidd, gan gynnwys adroddiadau safonwyr, goruchwyliaeth gan diwtoriaid cyswllt, a'r craffu gan yr Is-bwyllgor Partneriaethau Addysg, yn gweithredu fel trefnau rheoli mewnol cadarn sy'n diogelu safonau academaidd a phrofiad y myfyrwyr mewn ffordd gyson. Mae hyn wedi ei atgyfnerthu ymhellach gan system ddosbarthu sy'n ystyried risgiau sy'n gweithredu fel cyfrwng gwerthuso hanfodol ar gyfer graddnodi lefelau o drefnau monitro ac ymyrryd. Mae'r gwaith a wnaed yn ystod 2023-24 o gyfuno amrywiol brotocolau mewn un Polisi Partneriaethau Addysg cyfunol yn cynrychioli gwelliant sefydliadol sylweddol, gan symleiddio trefnau llywodraethu a hefyd aeddfedu dull y Brifysgol o reoli partneriaethau cymhleth.

101 Mae sefydlu'r Is-bwyllgor Partneriaethau Addysg, gyda'i arbenigedd ar draws y gwahanol swyddogaethau'n gwella'r dull hwn ymhellach drwy droi'r trosolwg yn gyfrwng ar gyfer adnabod cyfleoedd i sicrhau gwelliant. Trwy integreiddio canfyddiadau safonwyr yn amlwg i mewn i gynlluniau gwella rhaglenni, mae'r Brifysgol yn cau'r ddolen yn llwyddiannus rhwng sicrwydd ôl-syllol a gwelliant rhagweithiol. Er bod y dystiolaeth bresennol yn dangos bod darpariaeth gydweithredol wedi ei hamnythu'n effeithiol o fewn y system drosfwaol o reoli ansawdd academaidd, bydd ei heffeithiolrwydd yn y tymor hir yn dibynnu ar weithredu'r safonau hyn yn gyson ar draws y partneriaethau hyn sydd mor amrywiol yn ddaearyddol ac yn weithredol. Mae cyfuniad diweddar y gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy a rheoli ansawdd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu sefydliadol, gan roi'r Brifysgol mewn sefyllfa i fireinio ei goruchwyliaeth, yn ogystal â gwella ansawdd ei darpariaeth fyd-eang mewn ffordd strategol.

## Crynodeb sy'n dangos effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

102 Er bod y Brifysgol wedi sefydlu strwythur llywodraethu ffurfiol a fframwaith polisïau'n llwyddiannus ar gyfer rheoli darpariaeth gydweithredol, mae cyfle strategol yn parhau o hyd i sicrhau bod risgiau'n cael eu monitro'n fwy cadarn ar draws ei phortffolio byd-eang sy'n mynd yn fwy amrywiol. Mae'r mecanweithiau presennol, gan gynnwys y gwaith o gyfuno'r Polisi Partneriaethau Addysg a'r prosesau diwydrwydd dyladwy, yn darparu sylfaen hanfodol ar gyfer sicrhau safonau sylfaenol; ond, wrth i bortffolio addysg drawswladol y Brifysgol ehangu, byddai'r prosesau hyn yn elwa o ddefnyddio dull manylach a mwy rhagweithiol. Er mwyn sicrhau gwytnwch y sefydliad dros y tymor hir, mae'r tîm adolygu o'r farn bod lle i'r Brifysgol ddatblygu a gweithredu sbardunau risg soffistigedig, penodol i bartner sy'n cymryd i ystyriaeth amgylcheddau rheoliadol a gweithredol unigryw'r partneriaid tramor, er mwyn sicrhau bod y safonau academaidd a phrofiad dysgu'r myfyrwyr yn parhau i gael eu diogelu mewn ffordd gyson, yn unol â dyheadau strategol y Brifysgol.

103 Nododd y tîm adolygu mai un **maes sydd o dan ddatblygiad parhaus** yw'r angen i'r Brifysgol barhau i fonitro'r trefniadau ar gyfer rheoli ei darpariaeth dramor, gan gydnabod bod rhai o'i phartneriaethau'n dal i fod yn gynnar yn eu datblygiad, a chynnal dull goruchwylio trefnus

a chyson er mwyn sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gallu cael eu hadnabod a'u lliniaru'n brydlon ac yn effeithiol.

**QAA3061 - R14820 - Mai 26**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk